

Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	2
Pennod 1	Rhagymadrodd	6
Pennod 2	Canfyddiadau cyffredinol o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru	11
Pennod 3	Ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru	25
Pennod 4	Ffactorau Llwyddiant Critigol	31
Pennod 5	Casgliadau	44
Atodiad A	Methodoleg	48
Atodiad B	Ymgynghoriad i ddatblygu Ffactorau Llwyddiant Critigol	60
Atodiad C	Holiadur	71
Atodiad D	Y Graddau y Gellir Dibynnu ar yr Ystadegau	90
Atodiad E	Llythyrau a Anfonwyd o Flaen Llaw	94
Atodiad F	Rhanddeiliaid Llai Diweddar: Canfyddiadau	106
Atodiad G	Canfyddiadau o Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ôl Adran	110
Atodiad H	Ffactorau Llwyddiant Critigol: Canfyddiadau yn ôl Adran	116
Atodiad I	Proffil y sampl	126

Crynodeb Gweithredol

Y cyd-destun a'r fethodoleg

Comisiynwyd Ipsos MORI gan Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol i ymgymryd â'r arolwg cyntaf ar lefel gorfforaethol o randdeiliaid sy'n ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Darparwyd y sampl ar gyfer yr arolwg gan adrannau Llywodraeth y Cynulliad a gwnaed y gwaith maes dros gyfnod o bedair wythnos a hanner o 18 Ionawr hyd 20 Chwefror 2006. Er mwyn ceisio sicrhau'r cyfraddau ymateb uchaf posibl, rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr gwblhau'r arolwg un ai ar lein neu dros y ffôn. Y targed ar gyfer nifer y gyfweiliadau oedd 1,200. Fel y digwyddodd, y nifer a sicrhawyd oedd 1,130, a chwblhawyd 889 o gyfweiliadau dros y ffôn a'r 241 a oedd yn weddill ar lein.

Gan fod y data wedi dod o sampl yn hytrach nag arolwg cyfrifiad, mae'r canlyniadau'n ddarostyngedig i gyfeiliornad samplu. Er mwyn osgoi camddehongli, ni roddir canlyniadau ar gyfer adrannau lle'r oedd llai na 50 o randdeiliaid wedi ymateb ac ni cheir sylwadau am wahaniaethau rhwng is-grwpiau oni bai eu bod yn ystadegol arwyddocaol, h.y. os gallwn fod yn 95% yn sicr nad ydynt wedi digwydd ar ddamwain.

Canfyddiadau cyffredinol o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

- At ei gilydd, roedd 71% o'r rhanddeiliaid yn fodlon ar y modd yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith yn y 12 mis blaenorol, tra oedd 12% yn anfodlon. Er bod y canlyniadau hyn ychydig yn llai cadarnhaol na chanfyddiadau cymaradwy o arolwg Gweithrediaeth yr Alban o randdeiliaid yn 2005, maent yn gyson â'r canlyniadau o arolwg cyntaf Gweithrediaeth yr Alban, a wnaed yn 2004.
- Roedd cyfrannau uchel o randdeiliaid a fu mewn cysylltiad â'r Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant (77%); yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (75%); a'r Adran Hyfforddiant ac Addysg (75%), wedi mynegi bodlonrwydd ynghylch swyddogion

Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y gyfran isaf o randdeiliaid a fynegodd fodlonrwydd ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ymysg y rhai a fu mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (64%).

- Nododd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr fod y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith wedi gwella yn y 12 mis blaenorol; dywedodd 56% o'r rhanddeiliaid na fu newid, tra oedd 7% wedi dweud bod hynny wedi dirywio.
- Cytunodd mwyafrif y rhanddeiliaid fod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad 'wedi ymrwymo i gyflawni amcanion' (82%); 'yn gwrando ar eraill' (69%); a'u bod yn 'canolbwyntio ar gyflawni' (62%). Yn ogystal â hynny, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn *anghytuno* â'r gosodiad bod swyddogion 'yn bell ac yn amheronol' (73%).
- Er hynny, roedd 68% yn anghytuno â'r gosodiad bod swyddogion yn 'gydgysylltiedig'. Amlygwyd y mater o weithio mewn modd cydgysylltiedig ymhellach gan y ffaith bod nifer mawr o ymatebwyr wedi cyfeirio'n ddigymell at y mater hwnnw pan ofynnwyd iddynt awgrymu ym mha fodd y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid.

Gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

- Roedd y prif resymau dros gysylltiad ymatebwyr â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud ag ymgynghoriadau (24%); materion a oedd yn gysylltiedig â grantiau ac ariannu (23%); materion a oedd yn gysylltiedig â pholisi a deddfwriaeth (15%); a materion a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau (15%).
- O'r 247 o randdeiliaid a allai ddarllen Cymraeg, dywedodd tua dau ym mhob pump (42%) y carent gael eu gohebiaeth ysgrifenedig oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, os byddai modd. O blith y grŵp hwn, nododd un ym mhob tri eu bod bob amser neu weithiau wedi cael gohebiaeth ddwyieithog oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, nododd un ym mhob tri eu bod wedi cael gohebiaeth ddwyieithog weithiau, a nododd un ym mhob tri mai byth neu'n anaml yr oeddent wedi cael gohebiaeth ddwyieithog.
- O'r 264 o randdeiliaid a allai siarad Cymraeg, dywedodd tua chwarter (23%) mai eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad dros y ffôn yw'r Gymraeg. O blith y grŵp hwn, dywedodd

20% eu bod, dros y 12 mis blaenorol, bob amser neu'n aml wedi gallu cynnal eu galwadau i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg, tra dywedodd ychydig dros hanner mai byth neu'n anaml yr oeddent wedi gallu gwneud hynny.

- O'r rhanddeiliaid hynny a allai ddeall neu siarad Cymraeg, dywedodd 17% mai Cymraeg yw eu dewis iaith ar gyfer cymryd rhan mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd drwy wahoddiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. O blith y grŵp hwn, dywedodd 44% eu bod, yn y 12 mis blaenorol, bob amser neu'n aml wedi gallu cymryd rhan yn Gymraeg mewn cynadleddau a digwyddiadau drwy wahoddiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, tra dywedodd 24% mai byth neu'n anaml yr oeddent wedi gallu gwneud hynny.

Ffactorau Llwyddiant Critigol

- Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer mesur perfformiad swyddogion o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ar gyfer pob ffactor, gofynnwyd i ymatebwyr, yn gyntaf, pa mor bwysig yr oedd hwnnw iddynt hwy wrth ddelio â swyddogion o adran ddewisedig yn Llywodraeth y Cynulliad ac, yn ail, y graddau yr oedd pob ffactor yn berthnasol i swyddogion yn yr adran a ddewiswyd yn ymarferol.
- Y ffactorau llwyddiant critigol yr oedd rhanddeiliaid yn rhoi'r pwys mwyaf arnynt oedd: 'sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus' (dywedodd 84% fod hynny'n 'hanfodol' neu'n 'bwysig iawn'); 'delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (83%); 'wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (82%); 'yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy' (81%); 'yn cynnwys rhanddeiliaid ar adeg briodol yn y broses bolisi' (81%); ac, 'yn deall beth y mae rhanddeiliaid yn ceisio'i gyflawni' (81%).
- Y ffactorau llwyddiant critigol yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn arbennig o dda ynddynt ym marn ymatebwyr oedd: 'maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (dywedodd 81% eu bod 'bob amser' neu 'yn aml'); 'maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (76%); ac, 'maent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion' (74%).
- Rhoddwyd barn gymharol negyddol ynghylch swyddogion mewn cysylltiad â: 'maent yn arloesi ac yn barod i fentro' (dywedodd 71% eu bod 'weithiau', 'yn anaml' neu 'byth'); 'maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi' (56%); ac, 'maent yn rhannu gwybodaeth yn agored' (53%).

- Y ffactorau llwyddiant critigol sydd wedi'u diffinio'n **'flaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu'** yw'r rhai yr oedd rhanddeiliaid yn canfod eu bod yn bwysig iawn ond bod swyddogion yn perfformio'n waethaf arnynt, yn eu golwg hwy:
 - 'maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus';
 - 'maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi';
 - 'maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni; a,
 - 'maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol'.

Casgliadau

- Mae tri maes cyffredinol yn dod i'r amlwg fel blaenoriaethau ar gyfer ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid:
 - Gwell cydgysylltu rhwng swyddogion yn adrannau Llywodraeth y Cynulliad;
 - Mwy o ymdrech ar ran swyddogion i ddeall cyrff rhanddeiliaid, y cyd-destunau lle y maent yn gweithio a'r cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd; a,
 - Swyddogion yn cynnwys rhanddeiliaid ar adeg briodol yn y broses bolisi. Yn hyn o beth, mae ymatebion i'r cwestiynau penagored yn awgrymu y byddai rhanddeiliaid yn arbennig o falch o gael cymryd mwy o ran yn y cyfnodau cynharaf wrth ddatblygu polisi.
- Yn fwy cyffredinol, a hyd yn oed yn achos y ffactorau llwyddiant hynny lle y gwelir bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn perfformio'n gymharol dda, mae cyfle i hyrwyddo gwelliannau drwy osod y nod yn uwch a cheisio cyrraedd y categori 'bob amser', yn hytrach na'r categori cadarnhaol mwy cyffredinol o 'bob amser' neu 'yn aml'.

Pennod 1: Rhagymadrodd

Y cyd-destun

"Rydym yn ceisio bod yn gorff sy'n gosod y safonau ar gyfer y sector cyhoeddus drwy fod yn arloesol, yn hyderus, yn agored ac yn ystwyth. Gan mai gwlad fach ydym, mae modd i'n gallu i ymaddasu, i greu ac i weithredu'n gyflym fod yn un o'n cryfderau, ac mae hynny'n dibynnu'n rhannol ar ansawdd cysylltiadau swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â'r cyrff sy'n gweithio gyda ni i wella gwasanaethau cyhoeddus er mwyn pobl Cymru".

Y Bwrdd Rheoli, 2006

1.1 Yn fwy na degawd yn ôl, datblygwyd cysyniad y Cerdyn Sgorio Cytbwys, a oedd yn rhoi pwys ar yr angen i gyrff fonitro gwahanol agweddau ar eu perfformiad ymysg amrywiaeth fawr o randdeiliaid. Ers hynny, bu cyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn datblygu mecanweithiau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a monitro canfyddiadau rhanddeiliaid o'r corff.

1.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gydag amrywiaeth fawr o randdeiliaid wrth ddatblygu polisi, ei roi ar waith, ei gyflawni a'i fonitro. Mae Cerdyn Sgorio Cytbwys ei Bwrdd Rheoli'n rhoi pwys ar ddarparu gwasanaethau effeithiol i gwsmeriaid allanol ac ar geisio adborth gan gwsmeriaid a gweithredu ar ei sail. Hyd yma, ar lefel yr adrannau y ceisiwyd adborth gan randdeiliaid yn bennaf. Roedd y Bwrdd Rheoli'n dymuno ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth bresennol drwy gomisiynu "ymarferiad mwy penodol a thrawsadrannol gan ddefnyddio ffyn mesur perfformiad clir a chyson ar draws Adrannau Llywodraeth y Cynulliad a gan gynnwys mwy o amrywiaeth o randdeiliaid ... i ddarparu gwybodaeth ystyrion i oleuo'r ffordd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu â'u rhanddeiliaid yn y dyfodol". Yn unol â hynny, yn Nhachwedd 2005, comisiynwyd Ipsos MORI gan Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn Llywodraeth y Cynulliad i wneud arolwg cynhwysfawr o randdeiliaid Llywodraeth y Cynulliad.

Nodau ac amcanion

1.3 Nod yr arolwg oedd asesu lefel ac ansawdd presennol yr ymgysylltu rhwng swyddogion yn adrannau Llywodraeth y Cynulliad a'u rhanddeiliaid a darparu sylfaen dystiolaeth, lle'r oedd angen hynny, ar gyfer datblygu strategaethau yn y dyfodol i wella'r modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith.

1.4 Prif amcanion yr ymchwil oedd:

- cynhyrchu canfyddiadau sy'n caniatáu i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gael gwell dealltwriaeth o'u cysylltiadau â rhanddeiliaid a sut y gallant eu gwella;
- canfod a chategoreiddio amrywiaeth fawr o randdeiliaid Llywodraeth y Cynulliad;
- datblygu cronfa ddata safonedig gyflawn sy'n cynnwys pob un o Randdeiliaid Llywodraeth y Cynulliad a ganfuwyd yn yr ymarferiad hwn;
- darparu canfyddiadau ar lefelau'r gorfforaeth a'r adrannau; a,
- darparu data llinell sylfaen a fydd yn cynnig modd i gymharu dros amser.

Methodoleg ymchwil

Diffinio rhanddeiliaid

1.5 Mae'r enw 'rhanddeiliaid' yn gallu cyfeirio at amrywiaeth fawr o unigolion a grwpiau sydd â buddiant mewn, neu gyfrifoldeb at, gorff penodol; yn yr achos hwn, Llywodraeth Cynulliad Cymru. I ddibenion yr arolwg, roedd yn bwysig datblygu diffiniad ymarferol clir o randdeiliaid y gellid ei ddefnyddio wrth ddatblygu'r sampl a'r holiadur. Roedd y diffiniad a ddefnyddiwyd yn un eang er mwyn sicrhau bod yr ymchwil mor gynhwysol ag y byddai modd.

'Rhanddeiliaid' yw arbenigwyr, partneriaid darparu, cyrff/grwpiau buddiant sy'n ymwneud ag un pwnc, awdurdodau lleol, cyrff y sector gwirfoddol, cyrff y sector preifat, sefydliadau academiaidd neu gyrff proffesiynol. Roedd adrannau yn llywodraeth y DU a llywodraethau gwledydd tramor wedi'u cynnwys yn y diffiniad hefyd.

1.6 Nid oedd Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) wedi'u cynnwys yn yr arolwg oherwydd teimlwyd y byddai gofyn am eu barn ar adeg dyngedfennol yn y broses cyfuno'n gallu camystumio canlyniadau ac y byddai hefyd yn faich ychwanegol ar eu hadnoddau.

1.7 Nid oedd aelodau'r cyhoedd wedi'u cynnwys gan fod astudiaethau ar wahân yn yr arfaeth i asesu'r berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a dinasyddion Cymru.

Dylunio a rhagbrofi'r holiadur

1.8 Cafodd yr holiadur ar gyfer yr arolwg ei ddylunio gan Ipsos MORI drwy ymgynghori'n fanwl â thîm prosiect Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol. Roedd wedi'i seilio ar yr holiadur ar gyfer yr arolwg o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban ond fe'i haddaswyd i'r cyd-destun Cymreig. Cynhyrchwyd dwy fersiwn o'r holiadur, y gyntaf ohonynt wedi'i dylunio ar gyfer rhanddeiliaid a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf. Dyluniwyd fersiwn fyrrach o'r holiadur ar gyfer rhanddeiliaid na fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf.

1.9 Rhagbrofwyd yr holiadur dros y ffôn gydag 20 o randdeiliaid i sicrhau bod yr holl gwestiynau'n glir ac yn hawdd eu deall gan ymatebwyr. Fel y digwyddodd, nid oedd y cyfwelwyr na'r ymatebwyr wedi rhoi gwybod am unrhyw broblemau o bwys mewn cysylltiad â'r holiadur. Felly, penderfynwyd mynd ymlaen at brif ran y gwaith maes, ar ôl gwneud mân newidiadau i'r geiriad.

Samplu a Methodoleg

1.10 Er mwyn pennu'r sampl ar gyfer yr arolwg, roedd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol wedi gofyn i bob un o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu rhestr o unigolion yr oedd yn eu hystyried yn rhanddeiliaid iddi. Cafodd y rhestrau hyn eu safoni a'u golygu wedyn, a'u cyfuno i greu un ffeil a oedd yn cynnwys 3,830 o randdeiliaid.

1.11 Cynhaliwyd y gwaith maes dros gyfnod o bedair wythnos a hanner o 18 Ionawr hyd 20 Chwefror 2006. Rhoddwyd cyfle i ddarpar gyfranogwyr gymryd rhan yn yr arolwg dros y ffôn neu drwy gwblhau fersiwn ar-lein. Yn ogystal â'r dewis o fethodoleg, roedd ymatebwyr yn gallu cwblhau'r arolwg yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

1.12 Cyn dechrau ar y gwaith maes, anfonwyd llythyr o flaen llaw oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol drwy'r e-bost gan Ipsos MORI at y rhai yn y sampl yr oedd cyfeiriad e-bost ar gael ar eu cyfer.

1.13 Y targed ar gyfer nifer y cyfweiliadau i'w cwblhau ar gyfer yr arolwg oedd 1,200. Fel y digwyddodd, cyfanswm y nifer a gwblhawyd oedd 1,130, gyda 889 wedi'u cwblhau dros y ffôn a'r 241 a oedd yn weddill wedi'u cwblhau ar-lein (cwblhawyd 1,099 yn Saesneg a 31 yn Gymraeg). Mae hynny'n cyfateb i gyfradd ymateb o 53%.

Ceir disgrifiad manylach o'r fethodoleg ymchwil yn atodiad A.

Dehongli'r canfyddiadau

1.14 Am fod y data wedi'u casglu o sampl yn hytrach na chyfrifiad, mae data'r arolwg yn ddarostyngedig i gyfeiliornad samplu sy'n golygu bod rhaid inni gofio y gallai gwahaniaethau ymddangosiadol yn y data ar gyfer gwahanol is-grwpiau fod wedi digwydd ar ddamwain yn hytrach na'u bod yn dangos gwahaniaethau gwirioneddol. Mae'n arbennig o debygol y cymerir bod gwahaniaethau'n rhai gwirioneddol, a hwythau'n ddim ond yn fater o hap a damwain, wrth gymharu canlyniadau rhwng adrannau gan fod niferoedd yr ymatebion yn fach a gall lefel y cyfeiliornad fod yn uwch na hwnnw ar gyfer y sampl gyfan. Er mwyn osgoi camddehongli, mae unrhyw adran sydd â llai na 50 o ymatebwyr wedi'i hepgor o'r tablau data cymharol ym mhrif gorff yr adroddiad. Yn yr adroddiad drwyddo draw, ni wneir sylwadau ar wahaniaethau rhwng is-grwpiau oni bai eu bod yn ystadegol arwyddocaol, h.y. lle y gallwn fod yn 95% yn sicr nad ydynt wedi digwydd ar ddamwain. Rhoddir arweiniad i ddibynadwyedd yr ystadegau yn Atodiad D.

1.15 Os nad yw canrannau mewn tabl yn gwneud cyfanswm o 100%, gallai hynny fod o ganlyniad i dalgrynnu, hepgor categorïau 'nid wyf yn gwybod' neu atebion lluosog (lle y mae ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb i gwestiwn). Yn y gyfrol drwyddi draw, mae seren (*) yn dangos unrhyw werth o lai na hanner y cant.

1.16 Dylid bod yn ofalus hefyd wrth ddehongli ymatebion air-am-air i gwestiynau penagored yn yr arolwg. Mantis bennaf y math hwn o wybodaeth yw ei bod yn cynnig modd i asesu'r ystyriaethau a'r rhesymeg sy'n sail i ymatebion i rai o'r cwestiynau caeedig yn yr arolwg. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, rhaid trin sylwadau air-am-air fel rhai dangosol yn hytrach na chymryd eu bod yn darparu data ystadegol cynrychioladol gan nad oedd yr holl randdeiliaid wedi rhoi ymatebion i'r cwestiynau penagored. Gan hynny, hyd yn oed mewn achosion lle y mae rhai safbwyntiau'n gyffredin ymysg y rhai sy'n ymateb i gwestiwn penagored penodol, ni ellir dweud bod safbwynt o'r fath yn 'cynrychioli' rhai'r boblogaeth

ehangach o randdeiliaid mewn ystyr ystadegol. Dylid cofio hefyd fod sylwadau air-am-air, fel holl ganfyddiadau'r arolwg, yn adlewyrchu canfyddiadau'r ymatebwyr ac nid ffeithiau.

1.17 Un pryder mawr wrth ddylunio a datblygu'r astudiaeth oedd y graddau y gallai asesiadau'r ymatebwyr adlewyrchu nid yn unig y modd y maent yn rhyngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad - y broses o ymgysylltu - ond hefyd y canlyniad i'r broses honno - y graddau y mae rhanddeiliaid yn cyflawni amcanion eu cyrff eu hunain ac, felly, y graddau y mae'r polisïau, yr ariannu a'r mecanweithiau darparu sydd wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu blaenoriaethau, dyheadau ac anghenion gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Er mwyn sicrhau na ddigwyddai hynny, atgoffwyd yr ymatebwyr yn rheolaidd i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ansawdd yr ymgysylltu â swyddogion ac nid ar eu barn am benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad. Er bod y strategaethau hyn wedi'u defnyddio, disgwylid y byddai'r effaith hon yn parhau, i ryw raddau, ac nid oes modd mesur yr effaith hon. Wrth ystyried y canfyddiadau, felly, dylid cofio y bydd penderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad yn fwy derbyniol i rai rhanddeiliaid nag i eraill ac y bydd hynny'n sicr o effeithio ar eu canfyddiadau o'r modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Pennod 2: Canfyddiadau cyffredinol o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

2.1 Yn yr adran hon, ymdrinnir â chanfyddiadau cyffredinol yr ymatebwyr o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys eu bodlonrwydd cyffredinol ynghylch y modd y mae'r swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r cwestiynau a drafodir yn yr adran hon ac adrannau dilynol yn rhai a ofynnwyd dim ond i'r rhanddeiliaid hynny a gafodd ryw gysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad *yn y 12 mis diwethaf* (95% o'r holl ymatebwyr). Ceir gwybodaeth am ymatebwyr na fu mewn cysylltiad ag Adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf yn Atodiad F.

Prif ganfyddiadau

Yn gyffredinol, nododd 71% o'r rhanddeiliaid eu bod yn fodlon ar y modd yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith yn y 12 mis diwethaf.

Nododd cyfanswm o 31% o'r rhanddeiliaid fod y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith wedi gwella yn y 12 mis blaenorol, roedd 56% heb ganfod unrhyw newid a nododd 7% fod dirywiad wedi bod.

Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn cytuno bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad 'wedi ymrwymo i gyflawni amcanion' (82% yn cytuno), *yn anghytuno* â'r gosodiad eu bod 'yn bell ac yn amhersonol' (73% yn anghytuno), ac yn cytuno eu bod 'yn gwrando ar eraill' (69%). Er hynny, dim ond 20% o'r rhanddeiliaid a oedd yn cytuno bod swyddogion 'yn gydgysylltiedig'.

Ymhlith yr awgrymiadau am y modd y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wella'r modd y maent yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith, roedd rhai'n ymwneud â bod yn fwy cydgysylltiedig, cael gwell dealltwriaeth o gyrff rhanddeiliaid a mwy o ymwneud gan rhanddeiliaid yn y broses bolisi.

Bodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

2.2 Fel y mae Tabl 2.1 yn dangos, nododd ychydig mwy na saith ym mhob deg o'r rhanddeiliaid (71%) eu bod yn fodlon ar y modd yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith yn y 12 mis blaenorol, tra oedd 12% yn anfodlon. Er bod y ffigurau hyn ychydig yn llai cadarnhaol na chanfyddiadau cymaradwy o'r arolwg o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban yn 2005, maent yn gyson â'r canlyniadau o arolwg cyntaf Gweithrediaeth yr Alban a gynhaliwyd yn 2004.

Tabl 2.1: Bodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

C: Yn y 12 mis diwethaf, pa mor fodlon neu anfodlon y buoch ar y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith?

	Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006	Gweithrediaeth yr Alban 2004	Gweithrediaeth yr Alban 2005
<i>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr</i>	%	%	%
Bodlon iawn	22	21	26
Eithaf bodlon	49	51	50
Nac yn fodlon nac yn anfodlon	15	14	15
Eithaf anfodlon	10	8	6
Anfodlon iawn	2	3	2
Bodlon	71	72	76
Anfodlon	12	11	8

Ffynhonnell: MORI

2.3 Roedd lefelau'r bodlonrwydd ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn amrywio yn ôl yr adrannau y bu ymatebwyr mewn cysylltiad â hwy dros y 12 mis blaenorol. Yn benodol, roedd cyfran uwch o lawer o ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion o'r Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant (77%); yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (75%); a'r Adran Hyfforddiant ac Addysg (75%), wedi nodi eu bod un ai'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn o'u cymharu ag ymatebwyr a fu mewn cysylltiad ag adrannau eraill. Er enghraifft, mae hynny'n cymharu â 64% o ymatebwyr a fu'n ymwneud â swyddogion yn yr Adran

lechydd a Gofal Cymdeithasol a nododd eu bod yn fodlon (Tabl 2.2 isod). Mae'n werth nodi bod yr arolygon o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban wedi canfod bod Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban, yn yr un modd, yn un o'r adrannau a oedd â'r sgôr isaf, felly mae'n bosibl bod ffactorau sy'n ymwneud yn benodol â'r sector hwnnw sy'n sail i'r canfyddiad hwn.

Tabl 2.2: Bodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, yn ôl yr adran(nau) y buwyd mewn cysylltiad â hi/hwy

C: Yn y 12 mis diwethaf, pa mor fodlon neu anfodlon y buoch ar y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith?

	Bodlon	Bodlon iawn	Eithaf bodlon
<i>Sylfaen:</i> Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf, 1068.	%	%	%
Yr Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant	77	15	62
Yr Adran Strategaeth a Chyfathrebu	75	24	51
Yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	75	31	44
Yr Adran Gyllid	72	18	54
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol	72	22	50
Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth	71	25	45
Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg	71	19	52
Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio	70	16	53
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	64	18	46


Ffynhonnell: MORI

Newid yn y 12 mis blaenorol

2.4 Fel y mae Ffigur 2.1 yn dangos, nododd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr fod y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith, wedi gwella yn y 12 mis blaenorol (31%) tra oedd mwy na hanner (56%) wedi dweud na fu newid a 7% wedi nodi bod dirywiad wedi bod.

Ffigur 2.1: Y newid a ganfuwyd yn y modd yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y 12 mis blaenorol

Yn y 12 mis diwethaf, a ydych yn meddwl bod y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith wedi gwella, wedi gwaethygu, neu a yw heb newid?



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf (1,068)

Ffynhonnell: MORI

2.5 Mae'r canlyniadau a welir yn Ffigur 2.1 ychydig yn waeth na'r canfyddiadau cymaradwy o'r arolwg o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban yn 2005, lle y nododd 43% fod yr ymgysylltu wedi gwella, 44% nad oedd wedi newid a 9% ei fod wedi dirywio. Mae'n bwysig cofio, wrth gymharu fel hyn, mai hwnnw oedd yr ail arolwg ar gyfer Gweithrediaeth yr Alban yn hytrach na'r astudiaeth llinell sylfaen ond, gwaetha'r modd, nid oes data cymaradwy ar gyfer arolwg Gweithrediaeth yr Alban yn 2004.

2.6 Roedd rhywfaint o wahaniaeth rhwng is-grwpiau mewn cysylltiad â'r newid a ganfuwyd dros amser. Roedd cyfran uwch o lawer o randdeiliaid sy'n cynrychioli partneriaethau rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus a grwpiau

gwirfoddol wedi dweud bod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi gwella (50% a 40% yn y drefn honno) o'u cymharu â rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli mathau eraill o gyrff. Yn ogystal â hynny, roedd cyfran uwch o lawer o rhanddeiliaid a fu'n ymwneud â'r Adran Strategaeth a Chyfathrebu (45%), yr Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant (43%), a'r Adran Gyllid (42%), wedi dweud bod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi gwella o'u cymharu ag ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion o adrannau eraill (gweler Tabl 2.3 isod).

2.7 Roedd rhai amrywiadau daearyddol yn y canlyniadau hefyd, ac roedd cyfran uwch o lawer o'r rhanddeiliaid sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig nag o rai mewn ardaloedd trefol wedi nodi bod gwelliant o ran ymgysylltu (39% o'i gymharu â 30% yn y drefn honno).

Tabl 2.3: Y newid a ganfuwyd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y 12 mis blaenorol, yn ôl math o gorff y rhanddeiliaid a'r adran y bu'r rhanddeiliaid mewn cysylltiad â hi amlaf

Yn y 12 mis diwethaf, a ydych yn meddwl bod y modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio gyda chyrff eraill a'u cynnwys yn ei gwaith wedi gwella, wedi gwaethygu, neu a yw heb newid?

	% yn dweud ei fod 'yn well"	% yn dweud ei fod 'heb newid'	% yn dweud ei fod 'yn waeth"	% yn dweud 'nid wyf yn gwybod'
<i>Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf, 1068.</i>	31	56	7	6
Math o gorff y rhanddeiliaid				
Partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat	50	38	9	4
Un o Asiantaethau'r Llywodraeth	45	45	7	3
Un o adrannau Llywodraeth Ganolog	40	40	8	12
Grŵp gwirfoddol	40	42	7	11
Corff arall yn y sector cyhoeddus	38	55	2	5
Awdurdod Lleol (Cyngor)	31	60	4	5
Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)	31	58	8	2
Elusen gofrestredig	30	55	8	7

Corff sy'n cynrychioli gweithwyr	30	63	7	8
Grŵp buddiant	28	58	8	8
Sector preifat/busnes	24	66	7	3
Sefydliad academiaidd	14	65	9	12

Adran(nau) y buwyd mewn cysylltiad â hi/hwy

Yr Adran Strategaeth a Chyfathrebu	45	52	8	6
Yr Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant	43	48	6	3
Yr Adran Gyllid	42	59	9	3
Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio	34	55	7	5
Yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	33	53	6	9
Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth	30	56	10	5
Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg	30	53	9	7
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol	30	58	7	5
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	28	59	9	4

Ffynhonnell: MORI

Canfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad


2.8 Cyflwynwyd rhestr i'r ymatebwyr o osodiadau y gellid eu defnyddio i ddisgrifio corff neu bersonél mewn corff, a gofynnwyd iddynt a oedd y rhain yn cyd-fynd ai peidio â'r argraff a gawsant o ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.9 Fel y mae Ffigur 2.2 yn dangos, rhoddwyd sgôr arbennig o uchel i swyddogion ar nifer o'r gosodiadau a oedd wedi'u geirio'n gadarnhaol, sef, 'maent wedi ymrwymo i gyflawni amcanion', 'maent yn gwrando ar eraill' ac 'maent yn canolbwyntio ar gyflawni'. Yn yr un modd, roedd y cytundeb â'r gosodiad negyddol, 'maent yn bell ac yn amhersonol', yn gymharol isel, sef 23%.

2.10 Fodd bynnag, roedd pump o'r gosodiadau wedi ennyn ymateb negyddol gan o leiaf chwarter yr ymatebwyr. Hynny yw, roedd o leiaf 25% o'r ymatebwyr a gynigiodd farn un ai wedi cytuno â gosodiad negyddol neu heb gytuno â gosodiad cadarnhaol. Y gosodiadau oedd:

- 'Maent yn gydgysylltiedig' (68% yn anghytuno);
- 'Nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau' (36% yn cytuno);
- 'Maent yn deall y corff yr wyf yn rhan ohono' (37% yn anghytuno);
- 'Maent yn amharod i arloesi' (34% yn cytuno); a,
- 'Maent allan o gysylltiad' (29% yn cytuno).

Ffigur 2.2: Canfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf (1,068)

2.11 Oherwydd gwahaniaethau yng ngeiriad y cwestiynau, ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol â chanfyddiadau'r arolwg o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban. Yn arolygon Gweithrediaeth yr Alban, roedd ymatebion wedi'u seilio ar brofiadau rhanddeiliaid o adran benodol, nid y Weithrediaeth yn ei chyfanrwydd. Er hynny, gellir dweud bod lled debygrwydd rhwng y canlyniadau yng Nghymru a'r Alban o ran y meysydd lle y gwelir bod y gweinyddiaethau datganoledig yn perfformio'n dda a heb berfformio cystal.

2.12 Roedd cryn wahaniaeth rhwng canlyniadau gwahanol is-grwpiau o ymatebwyr. O ran y math o gorff, o'u cymharu ag ymatebwyr mewn mathau eraill o gyrff rhanddeiliaid, roedd cyfran uwch o lawer o randdeiliaid yn y GIG wedi nodi bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad 'yn bell ac yn amheronol' (33%) ac 'nad ydynt yn gwrando ar eraill' (31%). Roedd cyfran is o lawer wedi nodi bod swyddogion 'yn canolbwyntio ar gyflawni' (72%). Roedd elusennau cofrestredig a busnesau'r sector preifat yn fwy tebygol, ar gyfartaledd, o ddweud bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad 'yn amharod i arloesi' (43% a 52% yn y drefn honno).

2.13 Gyda golwg ar y gwahaniaethau rhwng adrannau, o'u cymharu ag ymatebwyr a fu (yn bennaf) mewn cysylltiad ag adrannau eraill, roedd cyfran uwch o lawer o'r rhanddeiliaid a fu mewn cysylltiad â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ymateb yn negyddol ar nifer o'r ffyn mesur, gan gynnwys: 'maent yn bell ac yn amheronol' (29% yn cytuno); 'maent allan o gysylltiad' (33% yn cytuno); 'maent yn gydgysylltiedig' (77% yn anghytuno); 'maent yn gwrando ar eraill' (27% yn anghytuno); ac, 'nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau' (44% yn cytuno). O'u cymharu ag ymatebwyr a fu (yn bennaf) mewn cysylltiad ag adrannau eraill, roedd cyfran uwch o lawer o'r rhanddeiliaid a fu mewn cysylltiad â'r Adran Hyfforddiant ac Addysg yn cytuno bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad 'yn deall y corff y maent yn rhan ohono' (62%) a'u bod 'yn canolbwyntio ar gyflawni' (67%) ac roedd cyfran is yn anghytuno â'r gosodiad eu bod 'yn gydgysylltiedig' (76%). O'u cymharu ag ymatebwyr a fu (yn bennaf) mewn cysylltiad ag adrannau eraill, roedd cyfran uwch o lawer o'r rhanddeiliaid a fu mewn cysylltiad â'r Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant yn anghytuno â'r gosodiad bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad 'yn gwrando ar eraill' (32%).

2.14 Fel y gellid disgwyl, roedd ymatebwyr a oedd yn fodlon, at ei gilydd, ar y modd yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu (gweler Tabl 2.1) yn tueddu i roi ymatebion mwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn anfodlon, at ei gilydd, pan holwyd hwy am y graddau yr oeddent yn cytuno â'r gosodiadau sydd wedi'u trafod yn union uchod. Er enghraifft, o blith y 757 o ymatebwyr a fynegodd fodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, roedd 82% yn cytuno â'r farn bod swyddogion

Llywodraeth y Cynulliad 'wedi ymrwymo i gyflawni amcanion', o'u cymharu â 59% o'r 125 o ymatebwyr a fynegodd anfodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Fel y gellir gweld yn Nhabl 2.4 (isod), roedd y gwahaniaeth o ran canfyddiadau rhanddeiliaid o swyddogion yn fwyaf pendant mewn cysylltiad â'r gosodiadau eu bod 'allan o gysylltiad', 'yn gwrando ar eraill', 'yn deall y corff yr wyf yn rhan ohono' a'u bod 'yn bell ac yn amhersonol', ac mae hynny'n awgrymu y gallai'r rhain fod yn brif resymau dros anfodlonrwydd ymysg rhanddeiliaid.

Tabl 2.4: Canfyddiadau o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ôl bodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

Rwy'n mynd i ddarllen rhestr o eiriau ac ymadroddion i ddisgrifio corff. Rwyf am i chi ddweud wrthyf pa rai ohonynt, os oes rhai o gwbl, sy'n cyd-fynd â'r syniadau sydd gennych am swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a'r argraff a wnaethant arnoch, a pha rai nad ydynt yn gwneud hynny. Maen nhw...

	Pawb %	Yn fodlon ar yr ymgysylltu ¹ %	Yn anfodlon ar yr ymgysylltu %	Gwahaniaeth* %
Wedi ymrwymo i gyflawni amcanion	82	89	59	30
Yn gwrando ar eraill	69	79	34	45
Yn canolbwyntio ar gyflawni	62	69	40	29
Yn deall y corff yr wyf yn rhan ohono	55	67	24	43
Yn gydgyssylltiedig	20	26	2	24
Heb ddealltwriaeth glir am flaenoriaethau	36	30	62	-32
Yn amharod i arloesi	34	28	55	-27
Allan o gysylltiad	29	20	68	-48
Yn bell ac yn amhersonol	23	15	58	-43

Sylfaen: Pawb a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf, 1068.

** % y rhai bodlon a thynnu % y rhai anfodlon*

Ffynhonnell: MORI

1 O gwestiwn 16 yn yr holiadur

Awgrymiadau am welliannau i'r ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.15 Gofynnwyd am awgrymiadau gan yr holl randdeiliaid, pa un a oeddent wedi rhoi asesiadau a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan neu'n negyddol ar y cyfan, am ffyrdd y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wella'r modd y maent yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith. Roedd y cwestiwn yn un penagored, fel y gallai ymatebwyr enwi a diffinio materion yn eu geiriau eu hunain. Nid oedd yr holl randdeiliaid wedi ymateb i'r cwestiwn, felly rhaid trin y canfyddiadau fel rhai dangosol yn hytrach na rhai sy'n ystadegol gynrychioladol. O blith y rhai a ymatebodd, roedd llawer ohonynt yn gadarnhaol, ac yn cyfeirio at berthynas waith dda gyda swyddogion neu brofiad da ohonynt. Mae'r sylwadau air-am-air canlynol yn cynnig blas o'r ymatebion:

"Cefais fod y berthynas, sy'n seiliedig yn bennaf ar rannu gwybodaeth mewn meysydd sy'n gyffredin i ni, yn un gadarnhaol. Rydym yn symud tuag at gynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd a threfnus a fydd yn helpu i wella'r berthynas."

Un o Asiantaethau'r Llywodraeth

"Mae gennym berthynas dda â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac rydym yn ymwneud â nifer o grwpiau rhanddeiliaid, fforymau a chynlluniau partneriaeth."

Elusen Gofrestredig

"Credaf fod y cysylltiadau gwaith yn eithaf da ar y cyfan, ond maent wedi'u seilio'n bennaf ar unigolion yn hytrach na systemau"

GIG

2.16 Cafwyd nifer o awgrymiadau am welliannau. Roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r agweddau hynny ar ymgysylltu, a nodwyd uchod, y cafodd swyddogion y sgorau isaf arnynt. Y rhain oedd:

- Mwy o gysylltiad, yn bennaf rhwng gwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad, ond hefyd rhwng swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau eraill:

"Byddai o gymorth i swyddogion fel fi, pe bai swyddogion y Cynulliad o wahanol adrannau'n gallu cydweithio'n agosach i sicrhau bod polisïau cysylltiedig yn ategu ei gilydd yn hytrach na mynd yn groes i'w gilydd."

Awdurdod Lleol

"Cyd-drefnu'r rhaglen ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y llwyth gwaith ar fannau darparu gwasanaethau'n haws ei drafod."

Sefydliad Academaidd

"Drwy fod yn fwy cydgysylltiedig. Mae syniadau da un ai'n cael eu colli neu eu llesteirio gan gyfathrebu gwael a diffyg cydlyniant yn y Cynulliad."

Awdurdod Lleol

"Er bod llawer o ganllawiau ac arweinyddiaeth effeithiol, mae angen cael gweithio mwy 'cydgysylltiedig' gyda chyrff eraill, gan gynnwys cyrff arolygu a rheoleiddio. Ceir gorgyffwrdd a dyblygu ar hyn o bryd, ac mae hynny'n ychwanegu'n ormodol at y llwyth gwaith."

Awdurdod Lleol

"Byddai'n dda petai'r swyddogion yn gweithio'n draws-adrannol fel y gellir datblygu'r blaenoriaethau ynghylch e.e. plant a phobl ifainc y disgwylir i ni eu cyflwyno. Y duedd yw bod y swyddogion o hyd yn gweithio o fewn adrannau penodol, heb fod cydgysylltu digonol - nid yw hyn o fudd i ni wrth i ninnau geisio datblygu partneriaethau a chreu cysylltiadau".

"Byddai'n dda petai'r swyddogion yn gweithio'n draws-adrannol fel y gellir datblygu'r blaenoriaethau ynghylch e.e. plant a phobl ifainc y disgwylir i ni eu cyflwyno. Y duedd yw bod y swyddogion o hyd yn gweithio o fewn adrannau penodol, heb fod cydgysylltu digonol - nid yw hyn o fudd i ni wrth i ninnau geisio datblygu partneriaethau a chreu cysylltiadau".

Awdurdod Lleol

- Gwell dealltwriaeth ymysg swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o gyrff y rhanddeiliaid a'r amgylchedd lle y maent yn gweithredu. Er mwyn meithrin dealltwriaeth, awgrymwyd gan lawer y dylai swyddogion ymweld yn amlach â chyrff y rhanddeiliaid a/neu ymgymryd â secondiadau. Gwnaed llawer o'r sylwadau hynny gan ymatebwyr sy'n gweithio yn y GIG:

"Mae angen iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar lawr gwlad. Pan fyddaf yn siarad â swyddog dros y ffôn, bydd yn ymddangos yn eithaf pell oddi wrth y sefyllfa wirioneddol o ddarparu yn y rheng flaen fel y gall ofyn i ni wneud rhywbeth sy'n dechnegol bosibl ond yn anodd iawn ac yn creu baich biwrocrataidd yn ymarferol."

Awdurdod Lleol

"Mae'n amlwg bod swyddi swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn llawer ganddynt ond gallai fod yn fuddiol iddynt gael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaeth yn uniongyrchol fel bod y penderfyniadau a wneir ar lefel y Llywodraeth yn fwy effeithiol a pherthnasol i'r gwasanaeth."

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

"Mae angen mwy o ddealltwriaeth o'r sector gwirfoddol. Oherwydd arferion gweithio'r Gwasanaeth Sifil - staff yn symud ymlaen i adrannau eraill bob rhyw ddwy flynedd - collir gwybodaeth a dealltwriaeth a rhaid eu hailfeithrin yn rheolaidd, gan wastraffu amser ac adnoddau'r sector gwirfoddol. Efallai y byddai secondiadau i'r sector neu fwy o anogaeth ar gyfer gwirfoddoli gan weithwyr yn fodd i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y staff."

Grŵp Gwirfoddol

- Mwy o ymdrech gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i fod yn llai 'Caerdydd-ganolog' ac yn fwy 'gweladwy' mewn cymunedau lleol, ac yn fwy gwybodus amdanynt. Yn y sylwadau a wnaed gan rai ymatebwyr, cyfeiriwyd at ganfyddiad o ddiffyg ymdrech ar ran swyddogion i ymweld â'r Gogledd:

"Am eu bod wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, nid oes ganddynt wybodaeth leol am ein hardal ni yn y Gogledd."

Awdurdod Lleol

"Rydym ni wedi ein lleoli yn y Gogledd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y De. Rydym yn teimlo'n bell iawn am mai'n anaml y byddwn yn gweld yr un ohonynt - maent yn methu â mynd o gwmpas."

Awdurdod Lleol

"(Dylai swyddogion) Dod allan o Gaerdydd gan gynnal sesiynau i'r cyhoedd. AALI i ymgynghori ar faterion o bwys."

Awdurdod Lleol

- Mwy o ymwneud gan gyrff rhanddeiliaid yn gyffredinol a mwy o ymgynghori ar bob cam o'r broses bolisi, ond yn enwedig yn ystod y camau cyntaf, i hyrwyddo polisi mwy effeithiol:

"Er bod swyddogion y Cynulliad yn rhai hawdd iawn mynd atynt ar y cyfan, weithiau byddaf yn meddwl y gallent wneud mwy i estyn allan a bod yn rhagweithiol wrth greu cysylltiadau y tu allan i'r Cynulliad yn hytrach na'i hystyried yn ddyletswydd gan y corff ar y tu allan i wybod bob amser beth y dylai gymryd rhan ynddo."

Corff arall yn y Sector Cyhoeddus

"Dylent gysylltu â ni CYN ysgrifennu dogfennau ymgynghori er mwyn sicrhau bod y materion y mae eu dogfennau'n ceisio rhoi sylw iddynt yn rhai pwysig i aelodau fel ein rhai ni."

Grŵp Buddiant

"Defnyddio cyrff yn fwy effeithiol i ystyried pa mor ymarferol yw cyflawni strategaethau (ar lefel weithredol), cyn llunio a chylchredeg dogfennau ymgynghori. Gweithio gyda chyrff yn fwy cyfartal ledled Cymru."

Partneriaeth Sector Cyhoeddus/Preifat

2.17 Ymysg yr awgrymiadau eraill, llai cyffredin, ar gyfer gwelliannau yr oedd camau i'w gwneud yn haws cysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad - er enghraifft, drwy gyhoeddi rhestr cysylltwyr a gwella gwefan Llywodraeth y Cynulliad - a rhoi mwy o amser i randdeiliaid ymateb i ymgynghoriadau:

"Nid yw'n hawdd cysylltu, mae'r wefan yn un wael o ran eich cyfeirio at bobl berthnasol - ychydig o enwau cysylltu, rhifau ffôn, etc., a geir. Byddai'n fuddiol cael diagram canghennog o'r holl staff ar gyfer pob Adran."

Awdurdod Lleol

"Egluro'r cysylltiadau, sy'n rhai cymhleth yn aml, o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y gellir canfod y swyddogion priodol a chysylltu â hwy."

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

"Er cydnabod bod terfynau amser y swyddogion yn cael eu pennu gan Weinidogion yn bennaf, ceir adegau pan yw'n ymddangos mai prin fu'n ystyriaeth a roddwyd i faint y gwaith y mae'n rhaid ei wneud i ymateb o fewn terfynau amser tynn. Gallai fod yn fuddiol cysylltu â rhywun yn y gwasanaeth yn gyntaf i gadarnhau'r hyn y mae ei angen."

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

2.18 Roedd y themâu a amlygwyd uchod wedi'u hadlewyrchu i raddau helaeth iawn yn argraffiadau cyffredinol y rhanddeiliaid o'u hymwneud â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, fel y trafodir yn y penodau canlynol.

Pennod 3: Ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru

3.1 Yn y bennod hon, canolbwyntir ar brofiadau rhanddeiliaid o ddydd i ddydd wrth ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n edrych ar resymau rhanddeiliaid dros gysylltu â swyddogion a'r dulliau o gysylltu. Ymdrinnir hefyd â materion sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg.

Y prif ganfyddiadau:

Prif resymau rhanddeiliaid dros gysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd: ymgynghoriadau a gwerthusiadau (24%); a grantiau neu faterion sy'n ymwneud ag ariannu (23%).

Y prif ddulliau a ddefnyddiwyd i gysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd: yr e-bost (82%); y ffôn (68%); a chyfarfodydd wyneb yn wyneb (67%).

O'r 247 o ymatebwyr a allai ddarllen Cymraeg, dywedodd 42% y byddent yn hoffi cael gohebiaeth ysgrifenedig oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, os byddai modd. O blith y grŵp hwn, nododd un rhan o dair ohonynt eu bod bob amser neu weithiau wedi cael gohebiaeth ddwyieithog oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, nododd un rhan o dair ohonynt eu bod weithiau'n cael gohebiaeth ddwyieithog a nododd un rhan o dair ohonynt mai byth neu anaml y byddent yn cael gohebiaeth ddwyieithog.

O'r 264 o randdeiliaid a allai siarad Cymraeg, dywedodd 23% mai eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad dros y ffôn oedd Cymraeg. O blith y grŵp hwn, dywedodd 20% ohonynt eu bod, yn ymarferol, wedi gallu cynnal eu galwadau i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn aml neu bob amser yn Gymraeg, tra dywedodd ychydig dros eu hanner mai anabl neu byth yr oeddent wedi gallu gwneud hynny.


O'r 357 o randdeiliaid a allai ddeall neu siarad y Gymraeg, dywedodd 17% mai eu dewis iaith wrth gymryd rhan mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd yr oeddent wedi'u gwahodd iddynt gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd Cymraeg. O blith y grŵp hwnnw, dywedodd 44% eu bod wedi gallu cymryd rhan yn Gymraeg bob amser neu'n aml mewn cynadleddau a digwyddiadau yr oeddent wedi'u gwahodd iddynt gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, tra dywedodd 24% mai anaml neu byth yr oeddent wedi gallu gwneud hynny.

Rhesymau dros gysylltu

3.2 Holwyd rhanddeiliaid am eu rhesymau dros fod mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol. Cyfeiriodd tua chwarter yr ymatebwyr at ymgynghoriadau a gwerthusiadau (24%); a grantiau neu faterion eraill sy'n ymwneud ag ariannu (23%), tra cyfeiriodd 15% at faterion yn ymwneud â pholisi neu at faterion yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Rhesymau y cyfeiriwyd atynt yn llai aml dros gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd: ceisio neu dderbyn gwybodaeth neu gyngor (9%); cymryd rhan mewn gweithgorau (7%); ac ymgyrchu neu lobïo (6%).

Ffigur 3.1: Rhesymau dros gysylltiad rhanddeiliaid â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru

Am ba reswm neu resymau y buoch mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fel cynrychiolydd i (y corff) yn y 12 mis diwethaf?



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf (1,068)


Ffynhonnell: MORI

Dulliau cysylltu rhwng rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

3.3 Fel y mae Ffigur 3.2 (isod) yn dangos, nododd rhanddeiliaid mai'r prif ddull yr oeddent yn ei ddefnyddio i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd yr e-bost, a grybwyllwyd gan 82% o'r ymatebwyr. Cyfeiriodd 68% o'r ymatebwyr at y ffôn a 67% ohonynt at gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Ffigur 3.2: Y prif ddulliau a ddefnyddiwyd i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru

A beth yw'r prif ddulliau yr ydych yn eu defnyddio i ryngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf (1,068)

Ffynhonnell: MORI

Darpariaeth Gymraeg

3.4 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr gyda'r bwriad o asesu'r graddau y mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflawni eu hymrwymadau mewn cysylltiad â darpariaeth Gymraeg. Ymdrinnir ymhellach â gallu ymatebwyr mewn perthynas â'r Gymraeg yn Atodiad I. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n awgrymu bod rhywfaint o le i wella gan swyddogion yn y maes hwn, oherwydd rhoddwyd gwybod bod y ddarpariaeth bresennol braidd yn fylchog:


Gohebiaeth ysgrifenedig

3.5 Gofynnwyd i'r 247 o'r ymatebwyr a allai ddarllen Cymraeg ym mha iaith y byddai'n well ganddynt gael gohebiaeth ysgrifenedig oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Dywedodd tua hanner (46%) ei bod yn well ganddynt gael gohebiaeth ysgrifenedig yn y Saesneg, tra dywedodd chwarter ohonynt y byddai'n well ganddynt ei chael yn ddwyieithog a dywedodd 17% ei bod yn well ganddynt gael gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Nododd 11% o'r ymatebwyr Cymraeg eu bod yn fodlon cael gohebiaeth ysgrifenedig yn y naill iaith neu'r llall (gweler Ffigur 3.3 isod).

3.6 Gofynnwyd i ymatebwyr Cymraeg yr oedd yn well ganddynt gael darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog pa mor aml, yn ymarferol, yr oedd eu gohebiaeth ysgrifenedig oddi wrth swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei darparu'n ddwyieithog. Fel y mae Ffigur 3.3 yn dangos, roedd bron yr un gyfran o ymatebwyr yn nodi bod gohebiaeth ddwyieithog yn cael ei darparu gan swyddogion 'bob amser' neu 'yn aml' (34%), 'weithiau' (30%) ac 'yn anaml' neu 'byth' (33%).


Ffigur 3.3: Y ddarpariaeth iaith bresennol a ffafriwyd ac y rhoddwyd gwybod amdani ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

Yn ddelfrydol, ym mha iaith yr hoffech gael negeseuon e-bost neu lythyrau oddi wrth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad? Ai yn...?



Sylfaen (yn darllen Cymraeg): 247

A pha mor aml y bydd y negeseuon e-bost a'r llythyrau a anfonir atoch gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu darparu'n ddwyieithog?



Sylfaen (yn well ganddynty rai Cymraeg neu ddwyieithog): 105

Ffynhonnell:MORI

Galwadau ffôn


3.7 Holwyd y 264 o ymatebwyr a allai siarad Cymraeg am eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad dros y ffôn. Ateb y mwyafrif, 52%, oedd Saesneg, tra oedd 23% wedi dweud mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith a dywedodd chwarter ohonynt eu bod yn fodlon sgwrsio yn y naill iaith neu'r llall.

3.8 O'r rhanddeiliaid hynny y mae'n well ganddynt gynnal galwadau ffôn yn Gymraeg, dim ond un ym mhob pump a ddywedodd eu bod wedi gallu cynnal galwadau gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg 'bob amser' neu 'yn aml' (19%), tra dywedodd 26% eu bod weithiau wedi gallu cynnal eu galwadau gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg a dywedodd 52% ohonynt mai byth neu anaml yr oeddent wedi gallu gwneud hynny (gweler Ffigur 3.4 isod).

Ffigur 3.4: Y ddarpariaeth iaith bresennol a ffafrwyd ac y rhoddwyd gwybod amdani ar gyfer galwadau ffôn gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

Yn ddelfrydol, beth fyddai'ch dewis iaith wrth gyfathrebu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad dros y ffôn Ai...?


Y naill na'r llall/yn fodlon siarad yn y naill iaith neu'r llall



Sylfaen (yn siarad Cymraeg): 264

A pha mor aml yn ymarferol yr ydych wedi gallu cynnal eich galwadau i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg?

Nid wyf yn gwybod/Amh.



Sylfaen (yn well ganddynt y Gymraeg): 61

Ffynhonnell: MORI


Cynadleddau a Digwyddiadau

3.9 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn deall neu'n siarad Cymraeg (357 o ymatebwyr) ystyried eu dewis iaith ar gyfer cymryd rhan mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd y cânt eu gwahodd iddynt gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Unwaith eto, fel y mae Ffigur 3.5 yn dangos, Saesneg oedd dewis iaith ychydig dros hanner ohonynt (54%), roedd 18% wedi ffafrio darpariaeth ddwyieithog ac roedd yn well gan 17% ohonynt y Gymraeg. Dywedodd y 10% a oedd yn weddill o'r ymatebwyr Cymraeg eu bod yn fodlon cymryd rhan yn y naill iaith neu'r llall.

3.10 Rhoddwyd gwybod bod y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau a gynhelir gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn well na hynny ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig a galwadau ffôn. O blith y rhanddeiliaid hynny yr oedd yn well ganddynt gymryd rhan yn Gymraeg, nododd ychydig dros ddau ym mhob pump eu bod wedi gallu gwneud hynny bob amser neu'n aml, tra dywedodd 27% eu bod wedi gallu gwneud hynny weithiau a nododd 24% ohonynt mai byth neu'n anaml yr oeddent wedi gallu gwneud hynny.


Ffigur 3.5: Y ddarpariaeth iaith bresennol a ffafriwyd ac y rhoddwyd gwybod amdani ar gyfer cymryd rhan mewn cynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd y cawsant eu gwahodd iddynt gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad

Yn ddelfrydol, beth fyddai'ch dewis iaith wrth gymryd rhan mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd y cawsoch eich gwahodd iddynt gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad? Ai...?



Sylfaen (yn siarad/deall Cymraeg): 357

A pha mor amly yr ydych wedi gallu cymryd rhan yn ddwyieithog mewn cynadleddau, digwyddiadau neu gyfarfodydd y cawsoch eich gwahodd iddynt gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad?



Sylfaen (yn well ganddynt wneud yn ddwyieithog): 127

Ffynhonnell: MORI

Pennod 4: Ffactorau Llwyddiant Critigol

4.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o 'Ffactorau Llwyddiant Critigol' a oedd wedi'u dyfeisio i fesur perfformiad wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gellir cymhwyso'r rhain at wahanol agweddau ar yr ymgysylltu rhwng rhanddeiliaid a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gan gynnwys y *graddau* y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn eu cynnwys yn ogystal ag ansawdd yr wybodaeth y mae swyddogion yn ei darparu a'u parodrwydd i arloesi. Am wybodaeth bellach am y modd y detholwyd y ffactorau llwyddiant critigol terfynol, gweler Atodiad B.

Y Prif Ganfyddiadau:

Y ffactorau llwyddiant critigol a ystyriwyd yn bwysicaf gan rhanddeiliaid oedd: 'maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus' (dywedodd 84% fod hynny'n 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn'); 'maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (83%); ac 'maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (82%).

Y ffactorau llwyddiant critigol yr oedd ymatebwyr wedi nodi bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn arbennig o gadarnhaol arnynt oedd: 'maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (dywedodd 82% eu bod 'bob amser' neu 'yn aml'); 'maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (76%); ac 'maent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion' (74%).

Rhodddwyd sgôr gymharol negyddol i swyddogion ar y canlynol: 'maent yn arloesi ac yn barod i fentro' (dywedodd 71% eu bod 'weithiau', 'yn anaml' neu 'byth'); 'maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi' (56%); ac 'maent yn rhannu gwybodaeth yn agored' (53%).

Y ffactorau llwyddiant critigol sydd wedi'u diffinio'n **'flaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu'** yw'r rhai a ystyriwyd yn bwysig iawn gan rhanddeiliaid ond lle y canfuwyd bod swyddogion yn perfformio waethaf:


- 'maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus';
- 'maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi';
- 'maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni'; a,
- 'maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol'.

4.2 Gofynnwyd i randdeiliaid seilio eu hymatebion i gwestiynau am y Ffactorau Llwyddiant Critigol ar eu profiadau o swyddogion mewn un adran. Am fod rhai rhanddeiliaid yn cysylltu'n rheolaidd â sawl adran wahanol, gwahoddwyd ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cysylltu'n rheolaidd â mwy nag un adran i ddewis adran yr oeddent am roi ateb ynghylch ei swyddogion. Os nad oedd yn well ganddynt un yn fwy na'r llall, detholwyd adran ar hap ar eu rhan. Roedd yr holl ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn dod i gysylltiad yn rheolaidd â mwy nag un adran wedi cael cynnig cyfle i ateb y set o gwestiynau ar gyfer mwy nag un adran: dewisodd 31 o ymatebwyr wneud hynny.

4.3 Roedd peth pryder y gellid cael gogwydd yn y data drwy adael i ymatebwyr ddewis adran i gynnig sylwadau amdani, gan y gallent ddewis adran yr oeddent wedi cael profiad arbennig o gofiadwy ohoni, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Fel y mae Ffigur 4.1 yn dangos, dywedodd 42% o'r ymatebwyr fod swyddogion yn yr adran o'u dewis 'yn well' wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid na swyddogion mewn adrannau eraill y buont mewn cysylltiad â hwy, nododd un rhan o dair ohonynt eu bod 'yr un fath bron', a dim ond 8% a deimlai eu bod 'yn waeth'. Er bod yr ymatebwyr wedi'u holi am adran benodol, nid yw'r data wedi'u cyflwyno yn ôl adran, gan mwyaf, am fod y samplau'n fach. Mae'r cymysgedd o ymatebion mewn cysylltiad â'r holl adrannau wedi'i gyfuno i roi trosolwg ar ganfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fel cyfangorff ac ni wneir sylwadau am wahaniaethau rhwng adrannau oni ba fod y samplau'n ddigon mawr.

Ffigur 4.1: Y Gwahaniaeth rhwng Adrannau o ran Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gan Swyddogion

Ac ystyried y gwahanol agweddau ar ymgysylltu yr ydym wedi bod yn eu trafod, i ba raddau y mae swyddogion yn (enw'r adran) yn well neu'n waeth, yn eich barn chi, wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid na swyddogion yn adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad y buoch mewn cysylltiad â hwy?



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a fu mewn cysylltiad â mwy nag un adran (343)

Ffynhonnell: MORI

4.4 Ar gyfer pob ffactor llwyddiant critigol, gofynnwyd i randdeiliaid wneud sylw, yn gyntaf, ynghylch pa mor bwysig yr oedd y ffactor hwnnw iddynt hwy wrth ddelio â swyddogion o'r adran a ddewiswyd (a oedd 'yn hanfodol', 'yn bwysig iawn', 'yn bwysig' neu 'heb fod yn bwysig?') ac, yn ail, ynghylch y graddau yr oedd y ffactor yn berthnasol i swyddogion yn yr adran yn ymarferol (ar raddfa bum pwynt o 'bob amser' i 'byth').

Pwysigrwydd canfyddedig y Ffactorau Llwyddiant Critigol

4.5 Mae Tabl 4.1 yn dangos y pwys yr oedd ymatebwyr yn ei roi ar bob un o'r ffactorau llwyddiant critigol. Y ffactorau y nodwyd eu bod un ai 'yn hanfodol' neu 'yn bwysig iawn' gan y gyfran fwyaf o ymatebwyr oedd:

- 'maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus' (dywedodd 84% fod hynny'n 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn');
- 'maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (83%);
- 'maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (82%);
- 'maent yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy' (81%),
- 'maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi' (81%); a,
- 'maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni' (81%).

4.6 Y ffactor a nodwyd gan y gyfran *leiaf* o ymatebwyr fel un pwysig oedd 'bod yn arloesol ac yn barod i fentro' (dywedodd 56% fod hynny'n 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn'). Mae'n bosibl bod hynny'n adlewyrchu'r ffaith nad yw rhanddeiliaid yn ystyried bod rôl swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud ag arloesi neu, yn benodol, mentro.

4.7 Mae'n bwysig cofio mai ychydig iawn o'r ymatebwyr a nododd fod unrhyw un o'r ffactorau llwyddiant critigol 'heb fod yn bwysig'.

Tabl 4.1: Pwysigrwydd canfyddedig y ffactorau llwyddiant critigol

Rwy'n mynd i ddarllen rhestr o nifer o nodweddion ac rwyf am ichi ddweud wrthyf pa mor bwysig yw pob un i chi wrth ddelio â swyddogion yn [enw'r adran]. A allwch ddweud wrthyf a yw pob un ohonynt yn hanfodol, yn bwysig iawn, yn bwysig neu heb fod yn bwysig?

	Hanfodol	Pwysig iawn	Pwysig	Heb fod yn bwysig
Sylfaen: Pawb a ddewisodd adran/adrannau, 1039	%	%	%	%
Maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus	53	31	15	1
Maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol	48	35	16	*
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel	48	34	16	1
Maent yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	47	34	17	2
Maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi	47	34	17	1
Maent yn egluro pwy sy'n atebol dros ganlyniadau	46	28	24	1
Maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni	45	36	18	1
Maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol	44	34	21	1
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	43	33	23	*
Maent yn ddiduedd wrth ddelio â chyrff	43	30	23	2
Maent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion	40	34	25	1
Maent yn parchu gwahaniaethau barn â phobl eraill	40	32	26	1
Maent yn arloesi ac yn barod i fentro	26	30	37	6

Ffynhonnell: MORI

4.8 Gyda golwg ar y gwahaniaethau rhwng adrannau, roedd cyfran uwch o'r rhanddeiliaid a oedd o arwyddocâd ystadegol a wnaeth sylw am eu profiad o ymgysylltu â swyddogion yn yr Adran Hyfforddiant ac Addysg wedi nodi bod y ffactorau llwyddiant critigol yn 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn' o'u cymharu â rhanddeiliaid a oedd wedi gwneud sylw am brofiadau o ymgysylltu â swyddogion mewn adrannau eraill. Ymysg y ffactorau llwyddiant critigol hynny yr oedd: 'maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus' (90% wedi dweud bod hynny'n 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn'); 'maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni' (87%); 'maent yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy' (86%); ac 'maent yn ddiduedd wrth ddelio â chyrff' (79%). Rhoddir yr holl ganlyniadau ar gyfer yr adrannau yn Atodiad H.

Perfformiad ar y Ffactorau Llwyddiant Critigol

4.9 Gofynnwyd i ymatebwyr wneud sylw am *berfformiad* swyddogion yn yr adran o'u dewis yn erbyn y ffactorau llwyddiant critigol. Mae Tabl 4.2 yn dangos bod barn gadarnhaol am berfformiad y swyddogion ar bron bob un o'r ffactorau, gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi rhoi 'yn aml' neu 'bob amser' fel ymateb. Er hynny, mae'n werth nodi nad oes unrhyw ffactorau lle'r oedd mwy na hanner yr ymatebwyr wedi dewis 'bob amser' fel ymateb, sy'n awgrymu bod lle i wella hyd yn oed yn achos y ffactorau hynny yr oedd swyddogion wedi cael y sgôr fwyaf cadarnhaol arnynt. Meysydd lle'r oedd cyfran uchel o'r ymatebwyr wedi rhoi barn gadarnhaol am berfformiad swyddogion oedd:

- 'maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (dywedodd 81% eu bod 'bob amser' neu 'yn aml');
- 'maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (76%); a,
- 'maent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion (74%)².

4.10 Meysydd lle y rhoddwyd barn negyddol am berfformiad swyddogion gan gyfran uchel o'r ymatebwyr oedd:

- 'maent yn arloesi ac yn barod i fentro' (dywedodd 71% eu bod 'weithiau', 'yn anaml' neu 'byth');
- 'maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi' (56%); a,
- 'maent yn rhannu gwybodaeth yn agored' (53%).

2 Oherwydd problem dechnegol gyda'r sgrïpt CATI, dim ond rhanddeiliaid a ymatebodd ar lein a holwyd am yr eitem hon (256 o ymatebwyr).

Tabl 4.2: Perfformiad ar Ffactorau Llwyddiant Critigol

Yn awr rwy'n mynd i ddarllen yr un rhestr o nodweddion ac rwyf am i chi ddweud wrthyf i ba raddau y mae pob un ohonynt yn berthnasol i swyddogion yn [enw'r adran] yn ymarferol. A allwch ddweud wrthyf a yw pob un yn berthnasol bob amser, yn aml, weithiau, yn anaml neu byth?

	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
<i>Sylfaen: Pawb a ddewisodd adran/ adrannau, 1039</i>	%	%	%	%	%
Maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol	43	38	16	1	*
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel	36	40	18	2	*
Maent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion	29	45	16	3	1
Maent yn ddiuedd wrth ddelio â chyrff	29	34	26	3	*
Maent yn parchu gwahaniaethau barn â phobl eraill	25	37	29	4	*
Maent yn egluro pwy sy'n atebol dros ganlyniadau	21	30	35	8	1
Maent yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	20	40	34	4	*
Maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus	18	37	37	4	*
Maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni	17	34	40	7	1
Maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol	16	37	38	6	1
Maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi	14	28	41	12	3
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	13	31	43	9	1
Maent yn arloesi ac yn barod i fentro	5	17	42	24	5

Ffynhonnell: MORI

4.11 O ran y gwahaniaethau rhwng adrannau, o'u cymharu ag ymatebwyr a oedd wedi gwneud sylw am adrannau eraill, roedd cyfran is o lawer o'r rhanddeiliaid a wnaeth sylw am yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi rhoi ymateb cadarnhaol ar nifer o'r ffactorau llwyddiant critigol, gan gynnwys: 'maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (74% a ddywedodd eu bod 'bob amser' neu 'yn aml'); 'maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus' (50%); 'maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol' (45%); ac 'maent yn rhannu gwybodaeth yn agored' (37%). O'u cymharu ag ymatebwyr a oedd wedi gwneud sylw am adrannau eraill, roedd cyfran uwch o'r rhanddeiliaid a oedd o arwyddocâd ystadegol a wnaeth sylw am yr Adran Hyfforddiant ac Addysg wedi rhoi ymateb cadarnhaol ar nifer o'r ffactorau llwyddiant critigol, gan gynnwys: 'maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (82% a ddywedodd eu bod 'bob amser' neu 'yn aml'); 'maent yn parchu gwahaniaethau barn â phobl eraill' (69%); 'maent yn ddiduedd wrth ddelio â chyrff' (69%); ac 'maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol' (60%). Diddorol yw nodi bod cyfran uwch o rhanddeiliaid a oedd o arwyddocâd ystadegol a wnaeth sylw am yr Adran Hyfforddiant ac Addysg hefyd wedi nodi bod nifer o'r ffactorau llwyddiant critigol yn 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn'. Felly, er mai ganddynt hwy y mae'r disgwyliadau mwyaf, hwy yw'r rhai mwyaf bodlon o hyd. Rhoddir yr holl ganlyniadau ar gyfer yr adrannau yn Atodiad H.

4.12 Fel y mae Tabl 4.3 yn dangos, roedd rhanddeiliaid a nododd eu bod yn fodlon ar y cyfan ar swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Ffigur 2.1 yn tueddu i roi sgôr fwy cadarnhaol i swyddogion yn yr adran o'u dewis (gan ddewis 'bob amser' neu 'yn aml') ar y ffactorau llwyddiant critigol na'r rhai a nododd eu bod yn anfodlon ar y cyfan ar swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cysylltiad, o bosibl, rhwng profiad y rhanddeiliad o ymgysylltu â swyddogion mewn un adran a barn gyffredinol y rhanddeiliad hwnnw am swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y gwahaniaeth yn sgorau'r ffactorau llwyddiant critigol rhwng y rhai a oedd yn fodlon ar y cyfan a'r rhai a oedd yn anfodlon ar y cyfan i'w weld yn arbennig o amlwg yn y gyfran a nododd fod swyddogion yn cyflawni pedwar o'r ffactorau, sef, 'maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol', 'maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni', 'maent yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy' ac 'maent yn arloesi ac yn barod i fentro', ac mae hynny'n awgrymu y gallai'r rhain fod yn brif resymau dros anfodlonrwydd rhanddeiliaid. Fel y nodwyd uchod (paragraff 4.7), mae'r ffaith mai'n gymharol anaml y nodwyd bod swyddogion yn 'arloesi ac yn barod i fentro' yn dangos, o bosibl, nad yw rhanddeiliaid yn ystyried bod rôl swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud ag arloesi neu, yn benodol, mentro.

Tabl 4.3: Sgorau adrannau ar Ffactorau Llwyddiant Critigol yn ôl bodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad


Sylfaen:	Bodlon ³ 729		Anfodlon 125	
	Cadarnhaol	Negyddol	Cadarnhaol	Negyddol
	%	%	%	%
Maent yn delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol	88	1	57	2
Maent wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel	84	*	54	7
Maent yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion	81	-	54	16
Maent yn ddiuedd wrth ddelio â chyrff	73	2	36	9
Maent yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	70	2	26	12
Maent yn parchu gwahaniaethau barn â phobl eraill	69	2	38	14
Maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus	66	2	26	14
Maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol	65	4	17	20
Maent yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni	62	4	15	18
Maent yn egluro pwy sy'n atebol dros ganlyniadau	60	5	30	21
Maent yn rhannu gwybodaeth yn agored	53	6	16	24
Maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi	51	8	11	33
Maent yn arloesi ac yn barod i fentro	28	20	9	58

Ffynhonnell: MORI

Cyfleoedd i wella

4.13 Mae Ffigur 4.2 isod yn dangos y berthynas rhwng pwysigrwydd cymharol pob un o'r ffactorau llwyddiant critigol a hefyd, yn fras, barn rhanddeiliaid am berfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar bob ffactor. Yn Nhablau 4.1 a 4.2, rhoddwyd sgôr am bwysigrwydd ar raddfa bedwar pwynt ac am berfformiad ar raddfa bum pwynt. Er mwyn dangos y ddwy ffon fesur ar raddfa gymaradwy a dangos y berthynas rhwng nodweddion - eu pwysigrwydd a'u perfformiad cymharol - safonwyd y sgorau ar gyfer pob nodwedd.⁴

Ffigur 4.2: Ffactorau llwyddiant critigol: Pwysigrwydd yn erbyn perfformiad



Ffynhonnell: MORI

4 Am fod y cwestiynau am berfformiad a phwysigrwydd wedi defnyddio gwahanol raddfeydd ac, felly, am nad oedd modd eu cymharu'n uniongyrchol, safonwyd y sgorau ar gyfer pob nodwedd drwy drawsnewid cymedr pob un o'r sgorau a roddwyd yn sgôr z. Mae sgôr z yn mynegi pob eitem mewn cyfres rifiadol yng nghyd-destun cymedr y gyfres a'r gwriad safonol er mwyn dangos a yw'r sgôr yn uwch neu'n is na'r cyfartaledd. Cyfrifir y sgôr z ar gyfer unrhyw eitem fel y gwerth ar ôl tynnu cymedr y gyfres, wedi'i rannu â gwriad safonol y gyfres. Dangosir hynny isod lle y mae x yn unrhyw eitem yn y gyfres a i z.

Un o'r prif fanteision o ddefnyddio sgorau z yw bod hynny'n caniatáu inni ddefnyddio cymedr yr holl bwyntiau ar y graddfeydd (e.e. 'bob amser', 'yn aml', 'weithiau', 'yn anaml' a 'byth') fel y cawn ddosbarthiad cyflawn ar gyfer pob eitem yn hytrach na'n bod yn canolbwyntio ar ddau bwynt yn unig (e.e. 'bob amser' ac 'yn aml'). Felly, gellir gwahanu eitemau a allai fod â'r un sgôr gyfunol ar gyfer 'bob amser'/'yn aml' ond sgôr gymedrig wahanol. Mae eitemau sy'n bwysicach na'r cyfartaledd neu'n perfformio'n well na'r cyfartaledd yn cael sgorau z cadarnhaol. Ar y llaw arall, mae eitemau sy'n llai pwysig na'r cyfartaledd neu'n perfformio'n waeth na'r cyfartaledd yn cael sgorau z negyddol.

$$z_x = \frac{(x - x_{atoz})}{\sigma_{atoz}}$$

4.14 Mae'r siart hon yn dangos yn syml y flaenoriaeth gymharol y dylid ei rhoi i wella'r perfformiad ar bob ffactor. Po bellaf i'r dde y mae ffactor llwyddiant critigol ar y siart, y mwyaf yw ei bwysigrwydd, fel y nodwyd gan gyfran gymharol uchel o'r rhanddeiliaid. Po uchaf yw ffactor llwyddiant critigol ar y siart, mwyaf oedd y gyfran o randdeiliaid a roddodd sgôr uchel i swyddogion ar ei berfformio. Felly, mae'r ffactorau hynny a ystyriwyd yn bwysig iawn ac yn rhai y mae swyddogion yn perfformio'n dda arnynt i'w cael yn chwarter uchaf y siart ar y dde (Cryfderau). Mae'r ffactorau yr ystyriwyd bod y perfformiad arnynt yn dda ond a ystyriwyd yn llai pwysig i'w cael yn chwarter uchaf y siart ar y chwith (Cynnal) ac mae'r ffactorau yr ystyriwyd bod y perfformiad arnynt yn gymharol wael ac y rhoddwyd llai o bwys arnynt i'w cael yn chwarter isaf y siart ar y chwith (Yn galw am waith ond nid ydynt yn Flaenoriaeth). Rydym yn argymhell y dylai adrannau Llywodraeth y Cynulliad roi blaenoriaeth, wrth benderfynu ar strategaeth i wella ymgysylltu, i'r agweddau hynny a ystyriwyd yn bwysig gan y gyfran fwyaf o randdeiliaid ac y rhoddodd rhanddeiliaid wybod bod swyddogion yn perfformio waethaf arnynt, h.y. y rhai sydd yn chwarter isaf y siart ar y dde (Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Datblygu).

4.15 Y Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Datblygu yw:

- *'Maent yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus'* - nodwyd bod hynny'n 'hanfodol' neu 'yn bwysig iawn' gan y nifer mwyaf o randdeiliaid ond nodwyd bod y perfformiad gan swyddogion yn cyfateb i'r sgôr gyfartalog am berfformiad ar gyfer yr holl ffactorau (Pwynt G, Ffigur 4.2);
- *'Maent yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi'* - y nodwedd bumed bwysicaf, ond nodwyd bod y perfformiad gan swyddogion yn is na'r sgôr gyfartalog am berfformiad (Pwynt L, Ffigur 4.2);
- *'Maent yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni'* - y nodwedd chweched bwysicaf, ond nodwyd bod y perfformiad gan swyddogion yn is na'r sgôr gyfartalog am berfformiad (Pwynt J, Ffigur 4.2); a,
- *'Maent yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol'* - y nodwedd seithfed bwysicaf, ond nodwyd bod y perfformiad gan swyddogion yn is na'r sgôr gyfartalog am berfformiad (Pwynt I, Ffigur 4.2).

4.16 Y ffactor llwyddiant critigol yr oedd y gyfran fwyaf o randdeiliaid wedi nodi bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn perfformio'n waethaf arno ('arloesi ac yn barod i fentro') oedd y ffactor hefyd yr oedd y gyfran leiaf o randdeiliaid wedi nodi ei fod yn bwysig. Fel y nodwyd uchod (paragraff 4.7),

mae'n bosibl bod hynny'n adlewyrchu'r ffaith nad yw rhanddeiliaid yn ystyried bod rôl swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud ag arloesi neu, yn benodol, mentro. Er hynny, gan mai arloesi yw un o flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, efallai y bydd y corff yn dymuno rhoi mwy o bwys ar y canfyddiad hwn nag a wnaeth y rhanddeiliaid.

4.17 Gan fod y ffactorau llwyddiant critigol yn yr arolwg hwn yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr arolwg ar gyfer Gweithrediaeth yr Alban yn 2005, nid oes modd gwneud cymariaethau uniongyrchol. Er hynny, mae'n werth nodi bod y ffactor 'eich cynnwys yn gynnar yn y broses bolisi' yn 'Flaenoriaeth Allweddol ar gyfer Datblygu' i swyddogion yn arolwg Gweithrediaeth yr Alban yn 2005, fel y mae i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, tra oedd 'arloesi wrth ddylunio polisi' yn y chwarter 'Yn galw am waith ond heb fod yn flaenoriaeth', fel y mae ar gyfer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

4.18 Os oedd rhanddeiliaid wedi nodi mai 'yn anaml' neu 'byth' y byddai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn bodloni ffactor llwyddiant critigol penodol, gofynnwyd iddynt egluro pam yr oeddent wedi rhoi'r ateb hwnnw. Y bwriad wrth ofyn cwestiynau dilynol penagored o'r fath oedd cael dealltwriaeth fanylach o ganfyddiadau rhanddeiliaid. Yn yr un modd â'r holl gwestiynau penagored yn yr arolwg, nid oedd yr holl rhanddeiliaid wedi rhoi ymateb, felly rhaid trin yr holl sylwadau fel rhai dangosol yn hytrach na rhai cynrychioladol. Mae'r sylwadau a roddwyd isod yn ymwneud yn benodol â'r pedwar 'Blaenoriaeth Allweddol ar gyfer Datblygu' i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

4.19 Roedd y sylwadau a wnaeth rhanddeiliaid mewn cysylltiad â 'sichrau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus' ac 'eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi' yn debyg iawn. Roedd rhai o sylwadau'r rhanddeiliaid yn dangos bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, drwy beidio â chasglu digon o wybodaeth neu beidio â chynnwys rhanddeiliaid yn ddigon cynnar yn y broses bolisi, wedi datblygu polisiâu a oedd, ym marn y rhanddeiliaid, yn rhai anaddas i'w diben ac yn anodd i'w rhoi ar waith. Rhai o'r problemau penodol y cyfeiriwyd atynt mewn cysylltiad â hyn oedd pennu targedau anymarferol gan swyddogion, a diffyg sylw gan swyddogion i anghenion ac amgylchiadau lleol:

"Diffyg dealltwriaeth o anghenion twristiaeth gweithgareddau a cholli cyfle o ran hyrwyddo Cymru fel cyrchfan gwyliau."

Y sector preifat/busnes

"Anaml y bydd y targedau ar gyfer darparu wedi'u prisio'n gywir a cheir rhai sy'n anymarferol. Fodd bynnag, mae hynny wedi gwella i ryw raddau."

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

"Er gwaethaf y rhethreg, nid yw'n cydnabod y bydd gwahaniaethau lleol oherwydd arferion lleol. Mae'r Adran wedi mabwysiadu dull gweithredu canoliaethol o orchymyn a rheoli."

Awdurdod Lleol

"Caiff polisiâu eu llunio o'r top i lawr - yn hytrach nag o'r gwaelod i fyny. Nid ydynt yn 'eiddo' i'r gwasanaethau ond yn hytrach yn cael eu gorfodi gan gomisiynwyr. Nid yw hyn yn ffordd iach o ddatblygu sector sy'n ehangu."

Grŵp Gwirfoddol

4.20 Mewn cysylltiad â 'deall yr hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni', nododd ymatebwyr fod methiant ar ran swyddogion i ddeall yr hyn y mae rhanddeiliaid yn ceisio'i gyflawni'n gallu arwain at bolisi nad yw'n addas i'w ddiben a/neu bolisi sy'n groes i amcanion corfforaethol y rhanddeiliaid.

"Mae gan yr adran ei hamcanion ei hun. Mae'n eu cyflawni drwy gyrff ei rhanddeiliaid gan mwyaf. Nid yw'n ymddangos ei bod yn sylweddoli bod rhaid i'r cyrff hyn roi gwybod am eu hamcanion a'u strategaethau EU HUNAIN ac mai ychydig iawn o amser sydd ganddynt, mewn gwirionedd, i roi gwybod am strategaethau'r Cynulliad. O ganlyniad i hynny, mae'r Cynulliad yn treulio llawer o amser yn paratoi strategaethau cyfathrebu nad yw cyrff y rhanddeiliaid yn gallu eu hyrwyddo ar ei ran."

Gwasanaeth Iechyd Gwladol

"Mae'n anodd i swyddogion y Cynulliad ddeall beth y mae pobl fel fi'n ceisio'i gyflawni a hwythau heb fawr ddim dealltwriaeth o'r materion y maent yn gyfrifol drostynt. Mae hynny'n arwain (mewn cysylltiad â phrosiectau) at gamddehongli a chamddeall ac, mewn rhai achosion, at ddiffyg gwerthfawrogiad o'r buddion a'r manteision y gallai rhai prosiectau eu dwyn i gymunedau."

Awdurdod Lleol

"Nid ydynt yn deall am eu bod yn rhy bell o'r rheng flaen. Nid ydynt yn deall sefyllfaoedd gwaith yn y rheng flaen. Nid ydynt yn deall beth sy'n gweithio'n effeithiol gyda phobl yr ydym yn ceisio'u gwasanaethu. Maent yn parhau â'u gweithdrefnau gweinyddu arferol ac felly'n treulio gormod o lawer o amser yn y diwedd ar weinyddu yn hytrach nag ar ddarparu gwasanaethau."

Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus

4.21 Ynghylch a ydynt 'yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol', y farn yr oedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n berthnasol iddi oedd bod diffyg gwaith mewn partneriaeth yn arwain at lunio polisi aneffeithiol a'i fod hefyd yn gallu peri anghytundeb a gwrthdaro rhwng rhanddeiliaid a swyddogion. Cafwyd awgrym dro ar ôl tro ei fod yn gallu peri i randdeiliaid fod yn ddrwgdybus o Adrannau Llywodraeth y Cynulliad, a chael eu dieithrio oddi wrthynt ac, yn yr achosion gwaethaf, peri eu bod yn llai tueddol i ymwneud â swyddogion yn y dyfodol.

"Gall arwain at benderfyniadau nad ydynt gyda'r gorau posibl. Gallant wneud niwed mewn dwy ffordd wahanol. Y gyntaf yw dadsefydlogi pethau effeithiol. Yr ail yw peri i staff yn y maes golli hyder a digalonni."

Grŵp Gwirfoddol

"Ceir ymdeimlad bod cynlluniau lleol a chenedlaethol benben â'i gilydd. Mae hynny'n arwain at beth rhwystredigaeth ac amheuaeth ynghylch y graddau y mae un grŵp yn gwerthfawrogi'r llall."

Awdurdod Lleol

"Mae'n peri i gyrff fod yn llai parod i ymgysylltu a chyflwyno syniadau i swyddogion yn gynharach."

Elusen Gofrestredig

Pennod 5: Casgliadau

5.1 Yn gyffredinol, roedd asesiad ymatebwyr o'r modd yr oedd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn un cymysg. Roedd tua saith ym mhob deg o'r ymatebwyr (71%) yn fodlon ar y modd yr oedd swyddogion wedi gweithio gyda chyrff a'u cynnwys dros y 12 mis blaenorol - ffigur sy'n gyson â'r canfyddiad cymaradwy yn yr arolwg cyntaf o rhanddeiliaid Gweithrediaeth yr Alban, a wnaed yn 2004 (72%). Yn ogystal â hynny, nododd tua un rhan o dair o'r ymatebwyr (31%) fod yr ymgysylltu wedi gwella dros y 12 mis blaenorol. Er hynny, roedd 68% o'r rhanddeiliaid yn teimlo nad oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gydgyssylltiedig.

Y prif gryfderau

5.2 Roedd canfyddiad ymysg rhanddeiliaid fod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud yn arbennig o dda o ran:

- 'Bod wedi ymrwymo i gyflawni amcanion' (82% yn cytuno);
- 'Gwranddo ar eraill' (69% yn cytuno); a,
- 'Canolbwyntio ar gyflawn' (62% yn cytuno).

5.3 Roedd y rhan fwyaf hefyd o'r farn bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn perfformio'n dda ar y rhan fwyaf o'r ffactorau llwyddiant critigol:

- 'Mae ganddi staff sy'n delio â rhanddeiliaid mewn modd proffesiynol' (81% yn dweud 'bob amser' neu 'yn aml');
- 'Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel' (76%);
- 'Yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion' (74%);
- 'Yn ddiduedd wrth ddelio â chyrff' (63%); a,
- 'yn parchu gwahaniaethau barn â phobl eraill' (62%).

Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Datblygu

5.4 Fodd bynnag, roedd canfyddiadau'r rhanddeiliaid ynghylch ffyn mesur eraill yn dangos bod rhai blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu. Yn benodol, dim ond un ym mhob pump (20%) o'r rhanddeiliaid a ystyriai fod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn 'gydgysylltiedig'. Ategwyd pwysigrwydd y mater o weithio mewn modd 'cydgysylltiedig' yng ngolwg rhanddeiliaid gan y ffaith bod cyfran fawr o'r ymatebwyr wedi cyfeirio at y mater hwn yn ddigymell wrth ateb cwestiwn penagored a oedd yn ymwneud â'r modd y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wella eu dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

5.5 Gyda golwg ar flaenoriaethau eraill ar gyfer datblygu, roedd tua un rhan o dair (37%) o'r rhanddeiliaid yn ystyried bod diffyg dealltwriaeth o'r cyrff yr oeddent yn rhan ohonynt ymysg swyddogion, eu bod 'heb ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau' (36%) a'u bod 'yn amharod i arloesi' (34%). Gan droi at y ffactorau llwyddiant critigol, daw pedwar maes i'r amlwg fel rhai a oedd yn cael eu hystyried yn bwysig iawn ond lle y nodwyd bod perfformiad y swyddogion yn is na'r sgôr gyfartalog ar gyfer perfformiad:

- 'Yn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus';
- 'Yn eich cynnwys ar adeg briodol yn y broses bolisi';
- 'Yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni'; a,
- 'Yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion ymarferol'.

5.6 Mae hefyd yn ymddangos bod lle i wella o ran y ddarpariaeth Gymraeg. Ar adeg y cyfweiliadau, roedd yn ymddangos bod anghysondeb rhwng yr hyn a oedd orau gan rhanddeiliaid yn y maes hwn a'r hyn yr oeddent wedi nodi eu bod yn ei brofi'n ymarferol. Er enghraifft, o blith y rhanddeiliaid hynny yr oedd yn well ganddynt gynnal eu galwadau ffôn i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn Gymraeg, dim ond un ym mhob pump (19%) a nododd eu bod yn gallu gwneud hynny 'bob amser' neu 'yn aml'.

5.7 O fewn y darlun cyffredinol hwn, roedd gwahaniaethau rhwng adrannau. Er enghraifft, barnwyd bod yr Adran Hyfforddiant ac Addysg yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar sawl un o'r ffactorau llwyddiant critigol tra oedd cyfran is o lawer o'r rhanddeiliaid a wnaeth sylw am yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi rhoi ymateb cadarnhaol ar nifer o'r ffactorau llwyddiant critigol. Mae'n bosibl y gellid canfod gwersi ar gyfer eraill drwy edrych ar yr arferion da yn yr adrannau sy'n perfformio'n well.

5.8 I grynhoi, a gan gymryd canfyddiadau'r arolwg gyda'i gilydd, daw tri maes cyffredinol i'r golwg fel blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol:

- gwell cyfathrebu rhwng swyddogion yng ngwahanol adrannau Llywodraeth y Cynulliad;
- mwy o ymdrech ar ran swyddogion i ddeall cyrff y rhanddeiliaid, y cyd-destunau y maent yn gweithio ynddynt a'r cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd; a
- mwy o ymdrech gan swyddogion i gynnwys rhanddeiliaid ar adeg briodol yn y broses bolisi - roedd ymatebion i'r cwestiynau penagored yn yr arolwg yn awgrymu y byddai rhanddeiliaid yn falch iawn o gael eu cynnwys yn y cyfnodau cynharaf wrth ddatblygu polisi.

5.9 Hyd yn oed yn achos y ffactorau llwyddiant critigol lle y nodwyd bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn perfformio'n dda, mae lle i hyrwyddo gwelliannau drwy ganolbwyntio ar ymdrechion i sicrhau ymateb 'bob amser' yn hytrach na'r categori cadarnhaol mwy cyffredinol, sef 'bob amser' neu 'yn aml'.

Y cwestiynau ymchwil sy'n weddill

5.10 Yn ogystal â dangos canfyddiadau presennol y rhanddeiliaid, roedd yr arolwg wedi tynnu sylw at ddau brif faes lle y byddai ymchwil bellach yn gallu cynnig gwybodaeth fuddiol.

5.11 Gyda golwg ar y nod o wella dull swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o weithio gyda chyrff y rhanddeiliaid a'u cynnwys yn ei gwaith, byddai'n fuddiol gwneud rhywfaint o ymchwil ansoddol bellach i ganfod yr hyn sy'n ysgogi'r asesiadau mwy negyddol o swyddogion, yn enwedig ar y ffactorau llwyddiant critigol ond hefyd ar fater gweithio 'cydgyssylltiedig' a'r angen am well dealltwriaeth o gyrff y rhanddeiliaid. Gallai hefyd fod yn fuddiol ystyried y cyd-destun mwy cyffredinol ac ymchwilio'n fanylach i rai o'r materion sy'n ymwneud â'r rhwystrau a'r cyfleoedd o ran ymgysylltu ar lefel yr Adrannau. Byddai ymchwil i farn y swyddogion eu hunain am yr ymgysylltu â rhanddeiliaid ac am ganfod a defnyddio arferion da yn gallu bod o gymorth wrth benderfynu ar y camau nesaf.

5.12 Saith mlynedd wedi creu Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae canfyddiadau'r arolwg cyntaf o randdeiliaid yn dangos perfformiad y swyddogion wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn cynnig llinell sylfaen ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Os yw'r corff yn bwriadu cymryd camau i wella ei ddull o ymgysylltu dros y misoedd nesaf, gallai fod yn fuddiol ailadrodd yr arolwg yn 2007 er mwyn mesur effaith unrhyw newidiadau. Os nad oes bwriad

i gyflwyno newidiadau o'r fath ar unwaith, gallai fod yn fuddiol rhoi'r arolwg o'r neilltu hyd nes y bydd cynlluniau newydd neu fesurau eraill ar gyfer gwella wedi'u rhoi ar waith oherwydd, fel arall, mae'n bosibl mai ychydig iawn o wybodaeth 'newydd' y byddai'r ymchwiler yn ei datgelu i'r corff. Os na chymerir camau ar unwaith, gallai ail arolwg fod yn arbennig o gamarweiniol gan ei bod yn bosibl y bydd canfyddiadau rhanddeiliaid o ansawdd yr ymgysylltu (a) wedi'u gwella dim ond am eu bod wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y mater neu (b) wedi'u niweidio am na chymerwyd camau dilynol i wella'r ymgysylltu.

Adolygu a datblygu'r gronfa ddata o randdeiliaid

5.13 Mae'r ymchwiler wedi cynnig nifer o wersi ar gyfer cynnal arolygon o randdeiliaid adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol. Yn benodol, roedd y broses o ddatblygu sampl wedi codi cwestiynau ynghylch a yw adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn deall pwy yw eu rhanddeiliaid. Mae'r ffaith bod manylion cysylltu cynifer o'r rhanddeiliaid a enwyd yn y sampl yn anghyflawn yn awgrymu ei bod yn bosibl na fu llawer o ymgysylltu rhwng yr unigolion hynny a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac, oherwydd hynny, mai gwell fyddai eu hystyried yn ymgynghoredigion achlysurol, yn hytrach na rhanddeiliaid fel y cyfryw. Ar gyfer arolygon yn y dyfodol, gallai fod yn werth mabwysiadu diffiniad mwy cyfyng o randdeiliaid sy'n ystyried amllder a graddau'r ymgysylltu.

5.14 Roedd nifer bach o randdeiliaid (62) nad oedd wedi cael unrhyw gysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis blaenorol ac a oedd wedi egluro hynny drwy ddweud na fu angen iddynt ddod i gysylltiad yn fwy aml na hynny. Gallai fod yn werth ymchwilio i ganfod a oedd ymgysylltu anaml o'r fath yn adlewyrchu eu hangen, mewn gwirionedd, neu a oedd ffactorau eraill ar waith - er enghraifft, camddealltwriaeth o gylch gwaith swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a'u rôl mewn cysylltiad â chyrff y rhanddeiliaid.

5.15 Roedd nifer o ymatebwyr, pan ofynnwyd iddynt, wedi enwi cyrff y teimlent y *dylent* fod yn ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ond nad oeddent yn gwneud hynny ar y pryd, hyd y gwyddai'r ymatebwyr. Bydd yn bwysig ystyried a oedd y cyrff hynny'n ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y Cynulliad, mewn gwirionedd, ac, os nad oeddent, beth yw'r cyrff hynny, pam nad ydynt yn ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd, beth y gellid ei wneud i'w cymell i wneud hynny ac a ddylid eu cynnwys hefyd yn y gronfa ddata o randdeiliaid.

Atodiad A: Methodoleg

Diffinio rhanddeiliaid

Mae'r term 'rhanddeiliaid' yn gallu cyfeirio at amrywiaeth fawr o unigolion a grwpiau sydd â buddiant mewn corff penodol, neu gyfrifoldeb tuag ato, sef, yn yr achos hwn, Llywodraeth Cynulliad Cymru. I ddibenion yr arolwg hwn, roedd yn bwysig datblygu diffiniad ymarferol clir o randdeiliaid y gellid ei ddefnyddio wrth ddatblygu'r sampl a'r holiadur. Roedd y diffiniad a ddefnyddiwyd yn un cynhwysfawr, a hynny o fwriad, er mwyn sicrhau y byddai'r ymchwiler mor gynhwysol ag y byddai modd. Roedd yn cwmpasu arbenigwyr, partneriaid darparu, cyrff/grwpiau buddiant sy'n ymwneud ag un pwnc ac unigolion penodol yng nghyrrff y rhanddeiliaid sydd â chysylltiad corfforaethol neu 'adrannol' â Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y diffiniad o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff yn y sector gwirfoddol, cyrff y sector preifat, sefydliadau academiaidd a chyrff proffesiynol. Roedd adrannau ac asiantaethau yn llywodraeth y DU a llywodraethau gwledydd tramor wedi'u cynnwys yn y diffiniad hefyd.

Nid oedd Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) wedi'u cynnwys yn yr arolwg oherwydd y teimlad y byddai gofyn eu barn ar adeg dyngedfennol yn y broses gyfuno'n gallu camystumio'r canlyniadau ac y byddai hefyd yn faich ychwanegol ar eu hadnoddau.

Nid oedd aelodau'r cyhoedd wedi'u cynnwys am fod bwriad i gynnal astudiaethau ar wahân i asesu perthynas Llywodraeth y Cynulliad â dinasyddion Cymru.

Dylunio a rhagbrofi'r holiadur

Dyluniwyd yr holiadur ar gyfer yr arolwg gan Ipsos MORI gan ymgynghori'n fanwl â thîm prosiect Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol. Roedd wedi'i seilio ar holiadur yr arolwg o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban ond roedd wedi'i addasu ar gyfer y cyd-destun Cymreig. Cynhyrchwyd dwy fersiwn o'r holiadur, y gyntaf wedi'i bwriadu ar gyfer y rhai a fu mewn cysylltiad â Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf. Y meysydd a oedd wedi'u cynnwys yn yr holiadur hwn oedd:

- gallu o ran y Gymraeg;
- lefel y cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- gwybodaeth gefndirol am gyrff yr ymatebwyr;

- bodlonrwydd cyffredinol ynghylch yr ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- y newid a ganfuwyd yn yr ymgysylltu yn y flwyddyn ddiwethaf;
- y rhesymau dros gysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a'r dull o wneud hynny;
- agweddau tuag at ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- gwerthusiadau o berfformiad swyddogion mewn adrannau y mae'r ymatebydd mewn cysylltiad â hwy'n fwyaf aml ar ffactorau llwyddiant critigol⁵; a
- awgrymiadau am y modd y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wella'r modd yr oeddent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Dyluniwyd holiadur byrrach ar gyfer rhanddeiliaid na fu mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf. Y meysydd a oedd wedi'u cynnwys yn yr holiadur byr oedd:

- gallu o ran y Gymraeg;
- lefel y cysylltiad â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- y cyfnod amser ers y cysylltiad diwethaf;
- a oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cysylltu â hwy yn y 12 mis diwethaf, er nad oeddent hwy wedi cysylltu â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- y rhesymau a ganfuwyd dros y diffyg cyswllt;
- a fyddai'r ymatebwyr yn hoffi cael mwy o gysylltiad yn y dyfodol; a,
- awgrymiadau am y modd y gallai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wella'r modd yr oeddent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Roedd y rhan fwyaf o'r eitemau yn yr holiaduron ar ffurf cwestiynau 'caeëdig' lle y gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis eu hateb o restr wedi'i chodio o atebion posibl. Fodd bynnag, roedd yr arolwg wedi'i ddylunio'n benodol i gynnwys cryn nifer o gwestiynau penagored lle'r oedd yr ymatebwyr yn cael gwneud unrhyw sylwadau yr oeddent yn teimlo eu bod yn briodol a diffinio materion yn eu geiriau eu hunain. Mae cwestiynau penagored yn rhoi awgrym da o bwysigrwydd cymharol y gwahanol faterion ym meddyliau'r ymatebwyr ac, oherwydd hynny, gallant fod o gymorth wrth bennu meysydd blaenoriaethol ar gyfer gweithredu. Maent hefyd yn cynnig gwybodaeth o natur fwy ansoddol na chwestiynau caeëdig, gan ddatgelu sut y mae pobl yn teimlo a hefyd *pam* y maent yn teimlo felly.

5 Dyranwyd Adran benodol i'r ymatebwyr ar hap a gofyn iddynt wneud sylw amdani neu, os oedd yn well ganddynt hynny, fe'u gwahoddwyd i ddewis Adran drostynt eu hunain. [Os oedd ymatebwyr wedi gweithio gyda swyddogion mewn mwy nag un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, rhoddwyd cyfle iddynt ateb y cwestiynau eto ar adrannau ychwanegol.]

Un elfen fawr yn yr holiadur oedd asesiad o berfformiad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar nifer o ffactorau llwyddiant critigol. Ceir 13 o ffactorau i gyd ac maent yn ymwneud â gwahanol elfennau yn ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad at randdeiliaid, a'i rhyngweithio â hwy, gan gynnwys "rhannu gwybodaeth yn agored", "parchu gwahaniaethau barn â phobl eraill" ac "egluro pwy sy'n atebol dros ganlyniadau". Datblygwyd y ffactorau llwyddiant critigol drwy broses o ymgynghori mewnol lle y gofynnwyd i Benaethiaid Grwpiau drefnu set o 25 o ffactorau llwyddiant critigol drafft yn ôl eu blaenoriaeth ar sail Cerdyn Sgorio Cytbwys Llywodraeth y Cynulliad a Blaenoriaethau ac Amcanion Corfforaethol yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer 2004-06 a ffactorau a oedd wedi'u haddasu o Fframwaith Cymwyseddau cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad. Cyfrifwyd y 'pleidleisiau' dros bob ffactor a, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, dewiswyd 13 o ffactorau llwyddiant critigol. Ceir disgrifiad llawn o'r broses hon yn Atodiad B.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr bennu pwysigrwydd pob ffactor llwyddiant critigol iddynt hwy yn eu rhyngweithio â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad cyn gofyn pa mor dda, yn eu barn hwy, yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi perfformio⁶ ar y ffactor hwnnw yn y 12 mis blaenorol. Wrth ddadansoddi'r data a gafwyd, yr amcan oedd tynnu sylw at feysydd a ystyriwyd yn gryf ac yn wan o ran y berthynas â rhanddeiliaid a phennu'r rhai a gâi'r effaith fwyaf ar ganfyddiadau o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drwy ddadansoddi unrhyw gysylltiadau rhwng y rhain a newidion eraill, fel bodlonrwydd cyffredinol.

Rhagbrofwyd yr holiadur dros y ffôn gyda 20 o randdeiliaid er mwyn sicrhau bod yr holl gwestiynau'n glir ac yn hawdd i'w deall gan ymatebwyr. Fel y digwyddodd, nid oedd y cyfwelwyr na'r ymatebwyr wedi rhoi gwybod am unrhyw broblemau o bwys gyda'r holiadur. Felly, penderfynwyd mynd ymlaen at brif ran y gwaith maes, ar ôl gwneud ychydig o fân newidiadau i'r geiriad (ceir copi o'r holiadur terfynol yn Atodiad C).

Samplu

Er mwyn pennu sampl ar gyfer yr arolwg, estynnwyd gwahoddiad gan Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol i bob adran yn Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu rhestr o unigolion yr oedd yn eu hystyried yn rhanddeiliaid iddi (heb gynnwys rhanddeiliaid mewnol, CCNC ac aelodau unigol o'r cyhoedd). Nid oedd unrhyw gyfyngiad ar nifer yr unigolion ym mhob corff rhanddeiliad y gellid eu cynnwys gan mai amcan yr arolwg oedd casglu barn

6 Yn yr arolwg o randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban, defnyddiwyd graddfa perfformiad 6 phwynt a'r dewisiadau'n amrywio o 'rhagorol' i 'gwael'. Fodd bynnag, roedd tîm prosiect Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn teimlo bod y data a gynhyrchwyd drwy'r raddfa hon yn gyfyngedig o ran eu gwerth. Felly, i ddibenion yr arolwg yng Nghymru, roeddent wedi dewis defnyddio graddfa amledd, h.y. gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r graddau y gellid dweud bod pob un o'r ffactorau llwyddiant critigol yn berthnasol i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar raddfa a oedd yn ymestyn o 'bob amser' i 'byth'.

rhanddeiliaid *unigol* yn hytrach na chael safbwynt y corff neu'r gorfforaeth. Ar gyfer pob rhanddeiliad unigol, gofynnwyd i'r adrannau ddarparu manylion cysylltu llawn gan gynnwys enw ei swydd, enw'r corff, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. Fel y digwyddodd, ychydig o'r adrannau a oedd â rhestrau parod o'u rhanddeiliaid ar lefel yr adran a bu'n rhaid i Unedau Busnes yr adrannau eu casglu'n unswydd ar gyfer yr arolwg o amryw o ffynonellau, gan gynnwys rhestrau ymgynghori a chofnodion mewnol eraill. Yn ystod cyfnod casglu'r wybodaeth, bu cynrychiolwyr o dîm prosiect Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol mewn cysylltiad â'r adrannau er mwyn trafod y prosiect yn fanwl a chynnig canllawiau ychwanegol ar gynnwys a ffurf ofynnol y rhestrau.

Roedd pedwar cam gwahanol yng nghyfnod nesaf y gwaith o samplu ar gyfer yr arolwg:

- glanhau, ailfformatio a chasglu mewn un ffeil - roedd y sampl wreiddiol mewn llawer o ffeiliau gwahanol, mewn rhaglenni meddalwedd gwahanol ac mewn fformatiau gwahanol. Glanhawyd y rhifau ffôn a'r chyfeiriadau e-bost er mwyn tynnu bylchau, comas a nodau testun damweiniol eraill;
- llenwi bylchau mewn cofnodion - yn ddelfrydol, byddai pob cofnod yn cynnwys enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ond dim ond rhai o'r manylion cysylltu a oedd yn llawer o'r cofnodion. Os oedd yn bosibl, llanwyd y bylchau yn y manylion cysylltu gan Ipsos MORI;
- tynnu cofnodion dyblyg - dim ond un cofnod ar gyfer pob person a oedd i fod yn y sampl, felly chwiliwyd am y cofnodion dyblyg a'u dileu,
- dileu cysylltiadau anghymwys - bu'n rhaid canfod cofnodion ar gyfer staff Llywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau eraill a noddur gan Lywodraeth y Cynulliad (CCNC) a'u dileu.

Llenwi bylchau

Ar ôl casglu'r sampl gyfan mewn un ffeil, a chyn tynnu unrhyw gofnodion dyblyg, canfuwyd bod tua un rhan o dair o'r sampl heb ddigon o fanylion i ganiatáu cysylltu dros y ffôn neu drwy'r e-bost. Ceir gwybodaeth bellach yn y tabl isod.

Defnyddiwyd nifer o strategaethau i lenwi bylchau yn y sampl:

- Gellid llunio cyfeiriadau e-bost neu eu clonio o gofnodion eraill - os oedd cyfeiriad e-bost un person yn y corff ar y ffurf enw-cyntaf.cyfenw@corff.gov.uk gellid llunio cyfeiriadau e-bost tybiedig ar gyfer cysylltiadau yn y corff hwnnw a oedd heb gyfeiriad e-bost drwy gysylltu manylion eraill;

- Gellid tynnu enwau o gyfeiriadau e-bost os oeddent ar y ffurf **enw-cyntaf.cyfenw@corff** neu **e.cyfenw@corff**; a,
- Defnyddiwyd chwiliadau ar y rhyngwrdd i gael rhif ffôn ar gyfer switsfwrdd cyffredinol y corff neu gyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn ar gyfer unigolion.

Roedd modd awtomeiddio'r ddwy strategaeth gyntaf yn Excel.

Gwnaed y chwiliadau ar y rhyngwrdd yn gyfan gwbl â llaw.

Dileu cofnodion dyblyg

Mewn sampl o unigolion, yr unig fodd i ganfod cofnodion dyblyg yw yn ôl nodweddion yr unigolyn. Yr wybodaeth fwyaf defnyddiol yng nghronfa ddata'r sampl oedd y cyfeiriad e-bost, sydd, drwy ddiffiniad, yn unigryw i'r unigolyn. Canfuwyd cyfeiriadau e-bost dyblyg drwy chwilio am gyfeiriadau e-bost a oedd wedi'u dyblygu'n gyfan (**steven.hope@mori.com**) a thrwy wirio bonion y cyfenw a'r parth ('hope' a 'mori') rhag ofn bod gwallau teipio.

Canfuwyd cyfuniadau o enw a rhif ffôn neu enw a chorff hefyd, ond ni ellid ystyried y rhain yn gofnodion dyblyg oni bai fod gwybodaeth arall (e.e. enw swydd) a oedd yn dangos bod dau gofnod yn rhai dyblyg mewn gwirionedd yn hytrach na dwy enghraifft o ddau â'r un enw yn gweithio i'r un corff.

Ar ôl y gwaith o lanhau, llenwi bylchau a dileu cofnodion dyblyg, roedd y sampl yn cynnwys y cysylltiadau a ganlyn:

Cofnodion ar y dechrau	8,343
Rhai heb fanylion cysylltu (dim enw, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn)	789
Enw'n unig	2,552
Cyfeiriadau e-bost dyblyg	713
Unigolion wedi'u dyblygu	1,261
Cysylltiadau mewnol (cyfeiriad e-bost yn gorffen â @wales.gsi.gov.uk)	80
Y sampl a oedd yn weddill y gellid ei defnyddio	3,830

Yn yr arolwg peilot, y gyfradd cymhwysedd ar gyfer y sampl oedd 58% - roedd y rhai anghymwys yn y sampl yn cynnwys rhanddeiliaid yr oedd y manylion cysylltu ar eu cyfer yn anghywir, rhanddeiliaid a oedd wedi symud i gorff arall a rhanddeiliaid a oedd yn eu hystyried eu hunain yn anghymwys. Ar sail y ffigur hwn, pennwyd amcangyfrifon a thargedau cymhwysedd

i bob adran ar gyfer prif ran yr arolwg. Dangosir y rhain yn Nhabl A1 isod. Yn achos y rhan fwyaf o'r adrannau, roedd holl randdeiliaid yr adran wedi'u cynnwys yn y sampl. Fodd bynnag, yn achos tair adran a oedd wedi darparu rhestrau hwy o randdeiliaid, gwnaed is-sampl ar hap o'r darpar ymatebwyr gan ddefnyddio SPSS.

Tabl A1: Amcangyfrifon a thargedau ar gyfer cymhwysedd

	Amledd	Amcangyfrif o gymhwysedd	Yn gymwys	Targed
	N	%	N	N
Y Rhaglen Newid	173	58	102	102
Y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth a Systemau Corfforaethol	12	58	8	8
Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg	325	58	190	176
Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth	1131	58	662	176
Yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	953	58	558	176
Yr Adran Gyllid	6	58	4	4
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	335	58	196	176
Y Grŵp Adnoddau Dynol	22	58	13	13
Yr Adran Llywodraeth Leol, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diwylliant	14	58	9	9
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol	544	58	319	176
Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio	20	58	12	12
Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio	337	58	103	103
Yr Adran Strategaeth a Chyfathrebu	120	58	71	71

Ffynhonnell: MORI

Roedd y broses o ddatblygu'r sampl wedi codi rhai materion a oedd yn ymwneud â'r graddau yr oedd adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn deall pwy yn union oedd eu rhanddeiliaid. Mae'r ffaith bod cynifer o fanylion cysylltu'r rhanddeiliaid a nodwyd yn y sampl yn anghyflawn yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw'r unigolion hynny'n ymgysylltu ar raddfa helaeth â Llywodraeth y Cynulliad ac, oherwydd hynny, mai gwell fyddai eu hystyried

yn ymgynghoredigion achlysurol yn hytrach nag yn rhanddeiliaid fel y cyfryw. Ar gyfer arolygon yn y dyfodol, mae Ipsos MORI yn awgrymu y gallai fod yn fuddiol mabwysiadu diffiniad mwy cyfyng o ystyr rhanddeiliaid sy'n ystyried amledd a graddau'r ymgysylltu.

Methodoleg yr arolwg

Cynhaliwyd y gwaith maes dros gyfnod o bedair wythnos a hanner o 18 Ionawr hyd 20 Chwefror 2006.

Rhoddwyd cyfle i ddarpar gyfranogwyr gymryd rhan yn yr arolwg un ai dros y ffion neu ar-lein. Roedd tri rheswm dros ddefnyddio dulliau cymysg o'r fath. Yn gyntaf, ac yn bwysicaf, byddai cyfranogwyr yn gallu dewis y dull a oedd yn fwyaf cyfleus iddynt a byddai hynny o gymorth i sicrhau'r cyfraddau ymateb uchaf posibl. Yn ail, byddai'n fwy cynhwysol na phe bai dim ond un dull wedi'i ddefnyddio oherwydd, pe byddai rhai a oedd heb fynediad i'r rhynggrwyd, er enghraifft, gellid cysylltu â hwy dros y ffôn. Yn drydydd, roedd yn bwysig sicrhau, hyd y gellid, fod y fethodoleg a fabwysiadwyd yr un fath â honno sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn yr Arolwg o Randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban fel bod y ddwy astudiaeth yn weddol debyg.

Yn ogystal â'r dewis o fethodoleg, roedd ymatebwyr yn gallu cwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu Saesneg. Byddai'r rhai a oedd yn dewis cymryd rhan dros y ffôn yn cael eu holi ar y dechrau am eu gallu o ran y Gymraeg. Byddid yn gofyn wedyn i'r rhai a allai siarad Cymraeg a oeddent yn dymuno parhau â'r cyfweiliad yn Saesneg neu yn Gymraeg. Roedd cyfwelydd Cymraeg wrth law ar gyfer y rhai a gymerai'r ail ddewis. Os nad oedd y cyfwelydd hwnnw ar gael ar y pryd i gymryd galwad, byddid yn trefnu amser a oedd yn gyfleus i'r ddwy ochr.

Ar gyfer yr arolwg ar-lein, cynhyrchwyd dwy fersiwn o'r sgrïpt - un yn Saesneg ac un yn Gymraeg. Ar ôl mewngofnodi i'r arolwg, gofynnwyd yn gyntaf i'r holl ymatebwyr a oeddent yn dymuno mynd ymlaen yn Gymraeg neu yn Saesneg a chawsant eu cyfeirio wedyn i'r fersiwn berthnasol o'r sgrïpt.

Ar gyfer yr arolygon dros y ffôn a'r rhai ar-lein, cafodd holl ddeunyddiau'r arolwg eu cyfieithu a'u cyfieithu'n ôl gan asiantaeth gyfieithu a oedd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau o safon uchel.

Cyn dechrau ar y gwaith maes, cafodd llythyr ei e-bostio o flaen llaw gan Ipsos MORI at y rhai yn y sampl yr oedd cyfeiriad e-bost ar gael ar eu cyfer. Roedd y llythyr yn cynnig gwybodaeth am gyd-destun yr arolwg ac roedd wedi'i lofnodi gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd dwy fersiwn o'r llythyr (Atodiad E). Roedd y gyntaf, a anfonwyd at y rhan fwyaf o'r rhai yn y sampl, yn rhoi'r URL ar gyfer gwefan yr arolwg ar-lein. Cysylltwyd â phawb a oedd wedi derbyn y llythyr dros y ffôn a'u gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn: bryd hynny, gallent wrthod cymryd rhan neu nodi ei bod yn well ganddynt gwblhau'r arolwg ar-lein. Yn achos lleiafrif o'r rhanddeiliaid na chafwyd rhif ffôn ar eu cyfer, anfonwyd ail fersiwn o'r llythyr drwy'r e-bost a oedd yn gwahodd y rhai a oedd wedi'i dderbyn i roi rhif ffôn i gysylltu â hwy yn ystod y dydd i Ipsos MORI, os oeddent yn dymuno cwblhau'r arolwg dros y ffôn. Anfonwyd yr holl lythyrau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ystod y gwaith maes, daeth yn amlwg bod rhai o'r ymatebwyr y cysylltwyd â hwy dros y ffôn heb dderbyn y llythyr a anfonwyd ymlaen llaw, yn bennaf oherwydd camgymeriadau mewn cyfeiriadau e-bost. Mewn achosion o'r fath, cynigiai'r cyfwelwyr ailanfon y llythyr ar unwaith, un ai drwy ffacs neu drwy'r e-bost.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau dros y ffôn gan MORI Telephone Surveys (MTS) gan ddefnyddio Computer Assisted Telephone Interviewing (CATI). Byddai aelodau o'r sampl y cafwyd rhif ffôn ar eu cyfer yn cael eu galw gan gyfwelydd a'u gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Trefnwyd i alw'n ôl ar adeg briodol os oedd hynny'n well gan y cyfranogwr. Hyd cyfartalog y cyfweiliad dros y ffôn oedd 15 munud. Mae CATI yn defnyddio proses gyfweld gyfrifiadurol, gyda holiadur ar y sgrîn a system ganolog i reoli'r sampl er mwyn monitro gwaith maes. Prif fantais CATI yw bod cyfwelwyr yn cael eu cyfeirio'n awtomatig drwy'r holiadur ac yn cael eu cymell i wirio rhai ymatebion. Mae hyn yn sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn i'r ymatebwyr cywir ac na fydd unrhyw gwestiynau'n cael eu gadael allan yn ddamweiniol neu eu cwblhau'n rhannol yn unig. Mae hyn, yn ei dro, yn dileu'r angen i gyfwelwyr wirio eu gwaith â llaw ac yn gwella ansawdd.

Datblygwyd fersiwn ar-lein yr arolwg gan dîm Technolegau Ymchwil Farchnata Ipsos MORI. Fe'i gweinyddwyd drwy ddefnyddio Computer Assisted Self-administered Interviewing (CASI) lle y mae strwythur a thrywydd yr arolwg yn cael eu rheoli gan y cyfrifiadur mewn modd tebyg iawn i CATI. Roedd yr holiadur ar-lein yn union yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd yn yr arolwg dros y ffôn felly, ni waeth pa fersiwn yr oedd ymatebwyr wedi'i hateb, gofynnwyd yr un cwestiynau iddynt yn yr un drefn. Yn fyr, ym mhob ffordd allweddol, roedd y ddau ddull casglu data wedi casglu'r un wybodaeth gan ymatebwyr mewn modd tebyg. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y dull yn effeithio ar y data; mewn geiriau eraill, nid oedd gwahaniaeth systematig rhwng yr ymatebion yn ôl pa un a oedd rhanddeiliaid wedi cymryd rhan dros y ffôn neu ar-lein.

Y targed ar gyfer nifer y cyfweiliadau a oedd i'w cwblhau ar gyfer yr arolwg oedd 1,200. Fel y digwyddodd, y cyfanswm a gwblhawyd oedd 1,130, gydag 889 wedi'u cwblhau dros y ffôn a'r 241 a oedd yn weddill wedi'u cwblhau ar-lein. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 53%. Cwblhawyd 1,099 yn Saesneg a 31 yn Gymraeg. Fel y byddem yn disgwyl yn achos arolwg o'r math hwn, roedd llawer o ddiddordeb yn yr ymchwil ac roedd yr ymatebwyr, at ei gilydd, yn barod iawn i gymryd rhan. Fel y mae'r tabl isod yn dangos, 226 o'r rhanddeiliaid hynny a oedd wedi'u gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg dros y ffôn a oedd wedi gwrthod gwneud hynny.

Tabl A2: Canlyniadau terfynol yr arolwg dros y ffôn

Nifer y cyfweiliadau a gwblhawyd	889
Nifer y rhai a wrthododd	226
Rhif anghywir	142
Rhif heb fod yn weithredol	36
Wedi cyrraedd uchafswm nifer y galwadau	41
Hyd cyfartalog y cyfweiliadau	14.75 munud

Ffynhonnell: MORI

Dadansoddi a dehongli data'r arolwg

Ansawdd y data

Caiff data'r cyfweiliadau dros y ffôn eu casglu'n electronig ar adeg y cyfweiliad. Bydd goruchwylwyr yn yr ystafell ffonio'n monitro cyfweiliadau i wirio ansawdd y cyfweild a sicrhau bod atebion yn cael eu cofnodi'n gywir gan y cyfwelydd. Mae'r system gyfrifiadurol wedi'i rhaglennu i sicrhau bod y dilyniant cywir o gwestiynau'n cael eu gofyn i ymatebwyr yn ôl eu hatebion cynharach. Mae Gwiriadau Dilysrwydd ar waith hefyd yn y rhaglen gyfweiliadau. Roedd y gwiriadau'n cynnwys gwiriadau rhesymeg galed sydd, er enghraifft, yn mynnu bod canrannau'n gwneud swm o 100% a gwiriadau meddal sy'n cymell y cyfwelydd i holi ynghylch atebion a allai fod yn annisgwyl neu'n anghyflawn. Oherwydd hynny, pan gaiff y data eu dadansoddi, dylent fod yn gyson neu'n 'lân' eisoes. Gwneir gwiriadau pellach am gysondeb a dilysrwydd cyn eu dadansoddi mewn cysylltiad â materion nad yw CATI/CASI yn gallu ymdrin â hwy a gwneir gwaith golygu pellach os oes angen.

Caiff data ar-lein eu casglu fesul cwestiwn felly, ar ôl ateb cwestiwn a phwyso'r botwm 'nesaf', caiff yr atebion blaenorol eu storio yn y gronfa ddata.

Mae'r sgript yn cynnwys gwiriadau rhesymeg a chysondeb sy'n debyg iawn i'r rhai a ddefnyddir yn CATI.

Dadansoddi

I ddibenion dadansoddi, paratowyd tablau cyfrifiadurol yn unol â manyleb y cytunwyd arni gyda Llywodraeth y Cynulliad. Yn y tablau, cafodd yr ymatebion i bob cwestiwn eu dadansoddi yn ôl nifer o newidion allweddol, sef:

- y math o gorff (e.e. awdurdod lleol, grŵp buddiant, adran llywodraeth ganolog, etc.);
- y berthynas â Llywodraeth y Cynulliad (e.e. ymgyrchoedd/lobïau ar faterion penodol, darparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth y Cynulliad, etc.);
- lleoliad daearyddol (trefol ynteu gwledig);
- a oedd y rhanddeiliaid wedi derbyn cyllid oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad;
- bodlonrwydd cyffredinol ynghylch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- amledd y cysylltiadau â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad; a,
- yr adran yr oedd yr ymatebydd mewn cysylltiad â hi amlaf.

Roedd dadansoddi o'r fath yn galluogi dadansoddwyr i chwilio am unrhyw wahaniaethau ym marnau a phrofiadau'r gwahanol fathau o randdeiliaid.

Yn ogystal â'r dadansoddiad sylfaenol hwn, defnyddiwyd sgorau z a dulliau atchwelyd i edrych ar y prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar fodlonrwydd â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a gwahaniaethau o ran perfformiad rhwng adrannau.

Dehongli'r canfyddiadau

Dim ond sampl o'r boblogaeth o randdeiliaid oedd yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg. Yr amcan, wrth bennu'r sampl, oedd rhoi sylw cynhwysfawr, hyd y gellid, i randdeiliaid pob adran ond, oherwydd natur yr ymarferiad samplu a rhywfaint o ddiffyg ymateb, ni fu hynny'n bosibl.

Fel y mae Tabl A3 yn dangos, y prif resymau dros wrthod cymryd rhan oedd bod yr ymatebydd i fwrdd yn ystod cyfnod y gwaith maes (52% o'r rhai a oedd heb ymateb), ei fod yn rhy brysur (17%) ac nad oedd yn teimlo ei fod yn rhywun priodol i gymryd rhan (12%).

Tabl A3: Rhesymau dros beidio ag ymateb

C Beth yw'ch rheswm dros beidio â chymryd rhan?

	%
<i>Sylfaen: Pawb nad oedd yn barod i gymryd rhan (226)</i>	
Byddaf i ffwrdd yn ystod cyfnod y gwaith maes	52
Yn rhy brysur	17
Nid wyf yn teimlo mai fi yw'r un priodol i gymryd rhan	12
Gormod o arolygon gan Lywodraeth y Cynulliad/ eisoed wedi cymryd rhan mewn gormod o arolygon gan Lywodraeth y Cynulliad	6
Nid wyf yn teimlo bod gen i ddigon/ unrhyw beth i'w ddweud	6
Arall	4
Nid wyf yn gwybod	4
Gormod o arolygon eraill/eisoed wedi cymryd rhan mewn gormod o arolygon eraill	3
Wedi treulio gormod o amser yn gwneud pethau i Lywodraeth y Cynulliad	3
Ni fydd dim yn digwydd o ganlyniad/ gwastraff amser	2
Dim un o'r rhain	-

Ffynhonnell: MORI

Am mai o sampl y cafwyd y data yn hytrach nag o gyfrifiad, mae data'r arolwg yn ddarostyngedig i gyfeiliornad samplu, sy'n golygu bod rhaid inni gofio y gallai gwahaniaethau ymddangosiadol yn y data ar gyfer gwahanol is-grwpiau fod wedi digwydd ar ddamwain yn hytrach na'u bod yn dangos gwahaniaethau gwirioneddol. Mae'n arbennig o debygol y cymerir bod gwahaniaethau'n rhai gwirioneddol, a hwythau ond yn fater o hap a damwain, wrth gymharu canlyniadau rhwng adrannau am fod nifer yr ymatebion yn fach ac am y gallai maint y cyfeiliornad fod yn uwch nag y mae ar gyfer y sampl gyfan. Er mwyn osgoi camddehongli, mae unrhyw adrannau y cafwyd llai na 50 o ymatebwyr ar eu cyfer wedi'u gadael allan o'r tablau data cymharol ym mhrif gorff yr adroddiad. Yn yr adroddiad drwyddo draw, ni cheir sylwadau am wahaniaethau rhwng is-grwpiau oni bai eu bod o arwyddocâd ystadegol, h.y. lle y gallwn fod yn 95% yn sicr nad ydynt wedi digwydd yn ddamweiniol. Ceir arweiniad ynghylch y graddau y gellir dibynnu ar yr ystadegau yn Atodiad D.

Os nad yw'r canrannau sydd wedi'u rhoi yn y tablau'n gwneud swm o 100%, gallai hynny fod o ganlyniad i dalgrynnu, i'r ffaith bod categorïau 'nid wyf yn gwybod' wedi'u gadael allan neu fod atebion lluosog wedi'u rhoi (lle y caiff ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb i gwestiwn). Yn y gyfrol drwyddi draw, mae seren (*) yn dynodi unrhyw werth o lai na hanner y cant.

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli ymatebion air-am-air i gwestiynau penagored yn yr arolwg. Prif fantais y math hwn o wybodaeth yw ei bod yn cynnig modd i asesu'r ystyriaethau a'r rhesymeg sy'n sail i ymatebion i rai o'r cwestiynau caeëdig yn yr arolwg. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn drwyddo draw, rhaid trin sylwadau air-am-air fel rhai dangosol yn hytrach na chymryd eu bod yn rhoi data sy'n gynrychioladol o'r ystadegau gan nad oedd yr holl randdeiliaid wedi ymateb i'r cwestiynau penagored. Felly, hyd yn oed mewn achosion lle y mae rhai safbwyntiau'n ymddangos yn gyffredin ymysg y rhai sy'n ymateb i gwestiwn penagored penodol, nid yw hynny'n golygu bod safbwyntiau o'r fath yn gyffredin ymysg y boblogaeth ehangach o randdeiliaid. Dylid cofio hefyd fod sylwadau air-am-air yn adlewyrchu canfyddiadau, yn hytrach na ffeithiau, yn yr un modd â holl ganfyddiadau'r arolwg.

Atodiad B: Ymgynghoriad i ddatblygu Ffactorau Llwyddiant Critigol

Ffactorau Llwyddiant Critigol ar gyfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Y mater dan sylw

Rhaid inni gytuno ar y meini prawf a ddefnyddir i asesu pa mor dda y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgysylltu â'i rhanddeiliaid. Bydd y meini prawf hyn yn sylfaen i holiadur yr arolwg o randdeiliaid.

Y cyd-destun

Mae'r Cerdyn Sgorio Cytbwys yn rhestru chwe 'ffactor llwyddiant critigol' dan y pennawd 'Cyflawni a Chwsmeriaid', ac o'r rhain cytunwyd⁷ mai dim ond dau a oedd yn ymwneud â Rhanddeiliaid Llywodraeth y Cynulliad (yn hytrach na Gweinidogion a Dinasyddion Cymru):

- Gwasanaethau effeithiol i gwsmeriaid allanol; a
- Ceisio adborth gan gwsmeriaid a gweithredu ar ei sail.

Mae'r ffactorau hyn wedi'u drafftio ar lefel gysyniadol gymharol uchel. Cydnabuwyd, felly, y byddai angen cyweirio'r ffactorau lefel uchel hyn i wneud set o elfennau mwy penodol i ddibenion yr astudiaeth.

Un ffordd ymlaen fyddai mabwysiadu'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan Weithrediaeth yr Alban ar gyfer ei harolwg o randdeiliaid. Er y byddai hynny, mewn egwyddor, yn caniatáu cymharu canfyddiadau'r ddau arolwg, nid yw cymharedd yn fater mor syml ag y gallai ymddangos a gellir cyflawni hynny i ryw raddau heb fabwysiadu holiadur Gweithrediaeth yr Alban yn llawn (am drafodaeth bellach am faterion sy'n ymwneud â chymharedd, gweler Ychwanegiad A isod). Felly, roedd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn teimlo mai mwy priodol, mewn achosion lle'r oedd gan Lywodraeth y Cynulliad ei blaenoriaethau ei hun ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, fyddai datblygu set o feini prawf yn unswydd ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad.

Datblygwyd rhestr o'r elfennau posibl o'r ffynonellau canlynol:

1. Y Ffactorau Llwyddiant Critigol a bennwyd gan Weithrediaeth yr Alban ar gyfer ei harolwg o randdeiliaid;

⁷ Fel y trafodwyd gyda Lisa Dunsford ac Owain Lloyd

2. Ffactorau a addaswyd o Fframwaith Cymwyseddau cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer sicrhau canlyniadau i'w chwsmertiaid;
3. Gwnaed gwiriadau hefyd i sicrhau bod ffactorau wedi'u cynnwys i gynrychioli Blaenoriaethau ac Amcanion Corfforaethol yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer 2004-06, sef:
 - Nod Llywodraeth y Cynulliad yw bod 'yn arloesol, yn hyderus, yn agored ac yn ystwyth';
 - Gwerthoedd Llywodraeth y Cynulliad;
 - Didueddrwydd ac uniondeb;
 - Sicrhau canlyniadau;
 - Parchu pobl a'u hamrywiaeth; a,
 - Gwrando, dysgu a gwella.

Lle'r oedd cryn orgyffwrdd rhwng eitemau a grëwyd drwy ddefnyddio Fframwaith Cymwyseddau Llywodraeth y Cynulliad a meini prawf Gweithrediaeth yr Alban, cafodd y ddwy eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Ailddrafftwyd rhai o feini prawf Gweithrediaeth yr Alban, e.e. os oeddent yn cynnwys dau fater gwahanol mewn un maen prawf. Mae Tabl A1 yn dangos ffynhonnell pob un o'r meini prawf posibl.

Yn yr Arolwg o Randdeiliaid Gweithrediaeth yr Alban, gofynnwyd cwestiynau am 17 o feini prawf gwahanol. Ar gyfer astudiaeth Llywodraeth y Cynulliad, roedd Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn argymhell lleihau'r nifer i 10 o feini prawf ar y mwyaf. Ceir sawl rheswm technegol dros hynny ond y prif gymhelliad oedd caniatáu casglu mwy o wybodaeth ansoddol - mewn geiriau eraill, yn ogystal â gofyn i randdeiliaid ddweud pa mor dda y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ar raddfa o un i bump, gofyn i randdeiliaid roi eglurhad llawnach os ystyrir bod yr ymgysylltu â hwy'n wael. Bydd gwybodaeth fanylach o'r fath yn rhoi modd i ganfod rhwystrau rhag ymgysylltu da fel y gellir gwneud argymhellion pendant ar gyfer gwella'r ymgysylltu (am drafodaeth bellach o'r rhesymau dros ostwng nifer y meini prawf, gweler Ychwanegiad B isod).

Fel man cychwyn ar gyfer lleihau nifer y meini prawf, anfonwyd y rhestr a gafwyd o ganlyniad, ac arni 25 o feini prawf posibl, at Benaethiaid Grwpiau a gofyn iddynt nodi a ddylai'r meini prawf gael Blaenoriaeth Uchel, Ganolig neu Isel, yn ogystal ag ychwanegu unrhyw feini prawf yr oeddent yn teimlo y dylid bod wedi'u cynnwys ar y rhestr. Cyfrifwyd y 'pleidleisiau' a cheir crynodeb o'r canlyniadau yn Nhabl A1. I ddibenion yr ymgynghoriad, roedd y meini prawf

wedi'u cymysgu fel nad oedd materion tebyg wedi'u rhestru gyda'i gilydd o reidrwydd. I ddibenion dadansoddi, mae'r meini prawf wedi'u grwpio dan bum pennawd ar wahân, fel y gellir eu cymharu'n rhwydd.

Cyngor

Fel y nodwyd uchod, argymhelliad Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn am wybodaeth fanylach am lai o feini prawf, o'i gymharu â holiadur Gweithrediaeth yr Alban. Mae dwy ffordd i benderfynu pa feini prawf y dylid eu cynnwys:

1. Yn ôl yr ymgynghoriad:

Mantais: rhoddwyd cyfle i bob Cyfarwyddwr Grŵp gael ymateb felly, er na wnaeth pob un, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu eu barn. Dylai hynny sicrhau cyfranogi gan Gyfarwyddwyr Grŵp yng ngweddill proses yr arolwg a hefyd mewn cysylltiad â'r canfyddiadau terfynol.

Anfantais: ceir ffenomen adnabyddus mewn gwaith ymchwil yn gyffredinol lle y mae rhai sy'n ymateb i arolygon yn rhoi'r atebion sy'n peri iddynt 'ymddangos yn dda'. Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, mae'n bosibl bod y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi rhoi blaenoriaeth uchel i feysydd lle y teimlent eu bod yn debygol o gael asesiad da gan randdeiliaid, ac i'r gwrthwyneb.

Mae hefyd yn bosibl bod rhai meini prawf a gafodd flaenoriaeth gymharol isel gan Benaethiaid Grŵp yn rhai y mae rhanddeiliaid yn rhoi mwy o flaenoriaeth iddynt.

2. Yn ôl blaenoriaethau corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad:

Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi rhoi blaenoriaeth gymharol isel i'r meini prawf a oedd yn seiliedig ar rai o flaenoriaethau corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad (gweler Tabl A1). Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hynny yw bod y meini prawf hynny, at ei gilydd, wedi'u mynegi ar lefel ychydig yn fwy haniaethol - mae'n fwy anodd 'mynd i'r afael â hwy' felly gellid eu hystyried yn llai pwysig na materion mwy ymarferol. Gallai hynny olygu y bydd rhanddeiliaid hefyd yn ei chael yn fwy anodd mynd i'r afael â'r

materion hynny ac y bydd ymatebion ynghylch meini prawf o'r fath yn llai buddiol. Wrth gynnwys y prif feini prawf sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau corfforaethol, byddai'n rhaid tynnu rhai o'r meini prawf y rhoddwyd blaenoriaeth uchel iddynt drwy'r ymgynghoriad.

Argymhellion Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol

Mae Tabl A1 yn dangos yr holl feini prawf posibl, wedi'u rhannu yn ôl eu pwnc. Mae pob maen prawf wedi'i ddynodi i ddangos ei safle yn yr ymgynghoriad ac i nodi a yw'n cynrychioli un o werthoedd allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Y meini prawf yn Nhabl A1 sydd ag 'Y' wrth eu hymyl yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr meini prawf derfynol sydd wedi'i hargymell (Tabl B2). Y sail ar gyfer dyrannu 'Y' oedd:

- eu bod wedi cael un o'r sgorau uchaf yn yr ymgynghoriad;
- nad oeddent wedi cael sgôr uchel yn yr ymgynghoriad ond eu bod yn cynrychioli un o werthoedd allweddol Llywodraeth y Cynulliad,
- nad oeddent wedi cael sgôr uchel yn yr ymgynghoriad ond eu bod yn cynrychioli mater y gallai rhanddeiliaid ei ystyried yn allweddol.

Fodd bynnag, wrth benderfynu pa feini prawf i'w cynnwys, dylid nodi bod rhai'n eithaf tebyg i'w gilydd - y rheswm dros hynny yw bod meini prawf posibl wedi'u datblygu o dair ffynhonnell wahanol a gadawyd i'r Penaethiaid Grŵp benderfynu pa rai a ddylai gael y flaenoriaeth uchaf. Lle y ceir rhai meini prawf sy'n debyg, e.e. pob un dan y pwnc 'Sut yr ydym yn eich cynnwys mewn meysydd polisi', rydym yn bwriadu lleihau cyfanswm y meini prawf drwy ailddrafftio rhai meini prawf mwy penodol i wneud un maen prawf mwy cynhwysfawr.

Yr hyn y mae arnom ei angen gan yr Ysgrifennydd Parhaol

Rhaid cael y penderfyniad terfynol gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn credu bod y rhestr sydd wedi'i hargymell, fel y mae, yn gyfaddawd rhesymol rhwng yr ymgynghoriad, a fu'n eithaf anwyddonol, a blaenoriaethau corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad, a'i bod yn ystyriol o safbwynt y rhanddeiliad.

Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol

03 Tachwedd 2005

Tabl B1: Meini Prawf Llwyddiant Posibl Llywodraeth y Cynulliad
Sut yr ydym yn eich cynnwys mewn meysydd polisi ...

		Sgôr gyffredinol	A yw'n adlewyrchu un o werthoedd Llywodraeth y Cynulliad	A yw wedi'i gynnwys yn y rhestr meini prawf a awgrymwyd
1	Yn eich cynnwys yn gynnar wrth ddatblygu polisi \$	8		
4	Yn barod i ystyried eich barn \$ *	7	V	
14	Wrth lunio polisi, mae'n nodi'n glir faint sy'n agored i'w newid \$	4	V	
15	Yn rhoi gwybod i chi sut y mae polisi'n datblygu \$ £ Wedi'i ailddrafftio ar y ffurf 'Yn eich cynnwys, lle y mae'n briodol, yn y broses bolisi'	5		Y
Sut yr ydym yn cyfathrebu...				
2	Yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy \$ *	10	v	Y
3	Yn rhoi ymatebion amserol \$	7		
5	Yn rhannu gwybodaeth yn agored \$ *	12	v	Y
17	Yn hyrwyddo deialog reolaidd â chyrrff eraill \$	6		
20	Yn rhoi ymatebion priodol \$	3		
Sut yr ydym yn gweithredu				
6	Yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion \$	10	v	y
7	Yn arloesi ac yn barod i fentro \$ *	5	v	y
16	Yn hyrwyddo dull diduedd o ddelio â chyrrff \$ *	11	v	y
22	Yn chwilio am gyfleoedd i wella lefelau gwasanaeth ac yn ceisio adborth am y gwasanaeth a ddarparwyd er mwyn cynnal gwasanaeth o ansawdd uchel @	12		y

23	Yn gwybod beth sy'n digwydd yn y maes er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus @	13		y
24	Yn dal y ddysgl yn wastad rhwng anghenion gan gwsmeriaid sy'n groes/yn cystadlu â'i gilydd ac yn negodi'n unol â hynny @	8		
25	Yn gweithio mewn partneriaeth i ganfod anghenion cwsmeriaid a sicrhau atebion ymarferol @	12		y

Ein gofal am gwsmeriaid ...

8	Mae ganddi staff sy'n delio ag ymholiadau a cheisiadau'n brydlon \$	10		
9	Mae ganddi staff sy'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am ddatblygiadau*	5	v	
10	Mae ganddi staff y mae'n hawdd cysylltu â hwy \$	10		
11	Mae ganddi staff sy'n delio â chwsmeriaid mewn modd effeithlon, pendant a chwrtais @	12		y
12	Mae ganddi staff sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi'r gwahanol farnau, profiadau a safbwyntiau sydd gan eraill * @	10	v	y
19	Mae ganddi staff nad ydynt yn symud o gwmpas gormod \$	-3		
21	Mae ganddi staff sy'n ymroddedig ac yn gadarnhaol wrth gyflawni'r gwaith * @	8		

Yn deall yr hyn sydd o bwys i'n rhanddeiliaid ...

13	Yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni \$	9		y
18	Yn deall y cyfyngiadau y mae rhanddeiliaid yn eu hwynebu \$	8		

Allwedd

\$ Maen prawf Gweithrediaeth yr Alban

* Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru

@ Un o gymwyseddau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Tabl B2: Y Meini Prawf ar gyfer Llwyddiant sydd wedi'u hargymell gan Lywodraeth y Cynulliad

23	Yn gwybod beth sy'n digwydd yn y maes er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n rhai gwybodus	13	
5	Yn rhannu gwybodaeth yn agored	12	v
25	Yn gweithio mewn partneriaeth i ganfod anghenion cwsmeriaid a sicrhau atebion ymarferol	12	
11	Mae ganddi staff sy'n delio â chwsmeriaid mewn modd effeithlon, pendant a chwrtais	12	
22	Yn chwilio am gyfleoedd i wella lefelau gwasanaeth ac yn ceisio adborth am y gwasanaeth a ddarparwyd er mwyn cynnal gwasanaeth o ansawdd uchel	12	
16	Yn hyrwyddo dull diduedd o ddelio â chyrff Yn eich cynnwys, lle y mae'n briodol, yn y broses bolisi	11	v
12	Mae ganddi staff sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi'r gwahanol farnau, profiadau a safbwyntiau sydd gan eraill	10	v
2	Yn darparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy	10	v
6	Yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a chyflawni amcanion	10	v
13	Yn deall beth yr ydych yn ceisio'i gyflawni	9	
7	Yn arloesi ac yn barod i fentro	5	v

Ychwanegiad A: Materion sy'n ymwneud â Chymharedd

Yn ddelfrydol, byddai'n fuddiol gallu cymharu canfyddiadau o Astudiaeth Gweithrediaeth yr Alban â'r rhai o astudiaeth Llywodraeth y Cynulliad. Byddai hynny'n dweud wrthym a ydym yn gwneud yn well neu'n waeth na'n cymheiriaid yn yr Alban. Er hynny, byddai Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn argymhell bob amser y dylai cymharedd ddod yn ail i:

1. trylwyredd methodolegol y cwestiwn, h.y. ni ddylid cadw cwestiwn sydd wedi'i eirio'n wael dim ond am fod rhywun arall wedi'i ddefnyddio; a,
2. y defnydd y disgwylir ei wneud o'r data, h.y. os nad yw'r cwestiwn yn ateb ein dibenion, ni ddylid ei ddefnyddio dim ond fel y gallwn wneud dadansoddiad cymharol.

Fodd bynnag, mae mater arall yn codi a allai fod yn bwysicach sy'n golygu na ddylai cymharedd fod yn brif flaenoriaeth wrth ddylunio'r astudiaeth hon - problemau gyda'r ffrâm samplu. Y problemau yw:

- mae'r diffiniadau a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r rhestr o randdeiliaid wedi bod ryw ychydig yn wahanol, e.e. i ddibenion astudiaeth Llywodraeth y Cynulliad, mae contractwyr wedi'u gadael allan. Oherwydd y gwahaniaethau hyn, gallai'r un dadansoddiad roi canlyniadau gwahanol, hyd yn oed os oedd y sefyllfa yn union yr un fath yn y ddwy weinyddiaeth ddatganoledig. Felly, ni fyddai dadansoddiad cymharol yn ddilys;
- cafodd ymchwilwyr Gweithrediaeth yr Alban broblemau wrth ddatblygu eu ffrâm samplu - roedd rhai grwpiau wedi'u tangynrychioli neu'n cynnwys lefelau cymharol uchel o randdeiliaid nad oedd manylion cysylltu ar gael ar eu cyfer, fel nad oedd y sampl yn gynrychioladol. Lle y mae'n debygol y bydd sampl Llywodraeth y Cynulliad yn amlygu problemau tebyg a lle nad oes modd bod yn sicr bod y problemau yr un fath i'r ddwy weinyddiaeth ddatganoledig, h.y. bod yr un mathau o randdeiliaid ar goll, ni fydd modd cymharu'r canfyddiadau; a,
- mae hefyd yn bosibl bod gwahaniaethau mwy cynnil rhwng y sefyllfaoedd yn y ddwy wlad a fydd yn golygu mai annoeth fyddai rhoi gormod o bwys ar gymhariaeth, e.e. y gwahanol raddau o ddatganoli i'r ddwy wlad.

Mae ymchwilwyr yn Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn teimlo bod rhai o'r cwestiynau yn Astudiaeth Gweithrediaeth yr Alban yn aneffeithiol, e.e. wrth ofyn i ymatebwyr 'pa mor bwysig' yw maen prawf ar gyfer llwyddiant ar raddfa o un i bump, o 'ddim yn bwysig' i 'hanfodol', mae ymatebwyr yn

debygol o ddweud bod pob un ohonynt yn bwysig iawn neu'n hanfodol. Lle y mae'n debygol y bydd astudiaeth Llywodraeth y Cynulliad, i ryw raddau, yn defnyddio testunau gwahanol i gwestiynau, e.e. drwy ofyn i ymatebwyr roi'r meini prawf yn nhrefn eu pwysigrwydd, bydd y gallu i wneud dadansoddiad cymharol yn gyfyngedig.

Nid yw'r newyddion **yn ddrwg i gyd**, fodd bynnag. Gan y bydd y rhan fwyaf o'r meini prawf a ddefnyddiwn yn debyg, yn ôl pob tebyg, bydd modd gwneud rhywfaint o waith **dadansoddi cymharol dangosol** yn yr achosion hynny drwy edrych arnynt ochr yn ochr. Er na fydd yn bosibl eu cymharu'n fanwl, am nad yw'r union un geiriau wedi'u defnyddio, byddai'r anawsterau o ran y ffrâm samplu yn peri bod hynny'n amhosibl, beth bynnag. Os mai'r cwbl y gallem ei ddisgwyl fyddai set o ganfyddiadau dangosol, byddai'n drueni rhoi blaenoriaeth i ddadansoddi cymharol uwchlaw materion eraill.

Ychwanegiad B: Pam y dylid cael llai o feini prawf?

1. Y baich ar ymatebwyr a blinder ymysg ymatebwyr

Ni waeth faint o ddiddordeb fydd gan ymatebwyr yn y pwnc, byddant yn colli diddordeb pan ofynnir iddynt ateb yr un math o gwestiwn drosodd a drosodd, er enghraifft, wrth gael rhestr hir o feini prawf, y mae'n rhaid iddynt roi sgôr ar eu cyfer gan ddefnyddio'r un raddfa o un i bump, fel y cynigiwyd ar gyfer yr arolwg o Randdeiliaid.

Nid mater o syrffedu yw hyn - mae'n ymwneud â'r **baich gwybyddol** y mae'r ymatebydd yn cael ei roi dano a'r ffaith bod y cwestiwn yn un eithaf **ailadroddus**.

Er bod dulliau wedi'u datblygu i ddelio â'r broblem hon i ryw raddau, e.e. drwy ddechrau rhestrau o gwestiynau ar hap, argymhellir na ddylid defnyddio rhestrau hir o gwestiynau tebyg:

- **yn foesegol**, nid yw'n iawn rhoi ymatebwyr dan ormod o faich; a,
- o ran sicrhau **data dilys**, os rhoddir ymatebwyr dan ormod o faich, gall hynny beri blinder iddynt a pheri bod cwestiynau tua diwedd y rhestr yn cael eu hateb heb ofal a sylw dyladwy.

2. Y gallu i gasglu mwy o ddata Ansoddol

Os oes rhaid i'r **holiadur fod mor fyr ag y bo modd** er mwyn peidio â rhoi'r ymatebwyr dan ormod o faich, mae angen cael **cyfaddawd**, fel arfer, rhwng gofyn, e.e. rhestr hir o gwestiynau ansoddol ac e.e. gofyn am fwy o fanylion am faterion allweddol.

Heb gael data ansoddol, gallem ddarganfod beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud yn dda a lle y mae'n gwneud yn wael, ond ni cheir gwybodaeth fanwl am y problemau penodol sy'n codi. Gellir defnyddio data ansoddol - a geir o gwestiynau sy'n gofyn '**Pam?**' - i ddatblygu argymhellion penodol ar y modd i ymgysylltu'n well.

Os gofynnir i randdeiliaid am farn fwy manwl, mae'n fwy tebygol y byddant yn teimlo bod Llywodraeth y Cynulliad yn **gwrando** arnynt. Gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar y **gyfradd ymateb**, heb sôn am beri i randdeiliaid deimlo'n braf ynghylch yr ymarferiad.

3. Y gallu i roi meini prawf yn nhrefn eu pwysigrwydd

Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn argymhell y dylid gofyn i randdeiliaid roi'r meini prawf ar gyfer llwyddiant yn nhrefn eu pwysigrwydd, os oes modd, gan nodi'r tri phwysicaf. Ni wnaed hynny yn astudiaeth Gweithrediaeth yr Alban. Bydd hynny o gymorth i gael gwell dealltwriaeth o'r pwys y mae rhanddeiliaid yn ei roi ar y gwahanol feini prawf ac i ddatblygu strategaethau i wella'r ymgysylltu. Fodd bynnag, mae'r baich gwybyddol a geir wrth roi rhestr o feini prawf yn nhrefn eu pwysigrwydd yn eithaf mawr, yn enwedig os gwneir hynny dros y ffôn. Os gellid cadw'r rhestr o feini prawf yn gymharol fyr, 10 neu lai, os oes modd, byddai modd cynnal yr ymarferiad hwn. Byddai mwy o lawer na 10 yn creu gormod o faich gwybyddol.

Atodiad C: Holiadur

Arolwg o Randdeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006

Holiadur terfynol

RHAGYMADRODD/CYFRINACHEDD

Bore da, prynhawn da, noswaith dda. Fy enw i yw ... ac rwy'n galw o MORI, y corff ymchwil, ac rydym ni'n gwneud arolwg ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r arolwg yn ymwneud â'r modd y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn eu cynnwys yn ei gwaith ac rydych wedi cael eich enwi fel un o'i rhanddeiliaid. Dylech fod wedi cael neges e-bost neu lythyr am hyn yn barod. Bydd y cyfweiliad yn cymryd 15 munud ar y mwyaf. A ydych yn barod i gymryd rhan?

OS YW'N BAROD I GYMRYD RHAN, GOFYNNWCH C A - C.

OS NAD YW'N BAROD I GYMRYD RHAN, EWCH AT C1

CA: A ydych chi'n gallu ...? DARLLENWCH YN UCHEL. MWY NAG UN COD YN IAWN

Deall Cymraeg llafar	1
Siarad Cymraeg	2
Darllen Cymraeg	3
Ysgrifennu Cymraeg	4

GOFYNNWCH HYN I BAWB SY'N GALLU SIARAD CYMRAEG (COD 2) YN CA. AR GYFER ERAILL, EWCH AT Y RHAGYMADRODD CYN C2

CB: A fyddech chi'n dweud eich bod ... ? DARLLENWCH YN UCHEL. UN COD

Yn siarad Cymraeg yn rhugl	1
Yn gallu siarad eithaf tipyn o Gymraeg	2
Yn gallu siarad dim ond ychydig o Gymraeg	3
Yn gallu dweud dim ond ychydig o eiriau yn Gymraeg	4

GOFYNNWCH HYN I BAWB SY'N GALLU SIARAD CYMRAEG YN CA (COD 2).
AR GYFER ERAILL, EWCH AT Y RHAGYMADRODD CYN C2.

CC: A fydddech yn hoffi mynd ymlaen â'r cyfweiliad yn Gymraeg neu yn Saesneg? UN COD

Cymraeg	1	EWCH AT Y RHAGYMADRODD CYN C2
Saesneg	2	

OS NAD YW'N BAROD I GYMRYD RHAN, COFNODWCH Y RHESWM.
(D.S. DIM OND OS NAD YW'R RHESWM YN GLIR O'R YMATEB
CYNTAF Y DYLECH OFYN Y CWESTIWN.) AR GYFER ERAILL, EWCH AT
Y RHAGYMADRODD CYN C2.

